# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 7 Hydref 2019

Amser: 12.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilio@cynulliad.cymru

---

**(Rhag-gyfarfod preifat)**

(12.45 - 13.15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.15)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(13.15)

**2.1 Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau: Trafod ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor**

(Tudalennau 1 - 14)

PAC(5)-24-19 Papur 1 - Ymateb Llywodraeth Cymru

## 3 Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru - gwaith craffu cyffredinol ar gyfrifon

(13.15 - 14.45) (Tudalennau 15 - 72)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

PAC(5)-24-19 Papur 2 - Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19

PAC(5)-24-19 Papur 3 - Argymhellion a gynhwyswyd yn Adroddiad y Pwyllgor ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18

PAC(5)-24-19 Papur 4 - Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol at Swyddogion Cyfrifyddu Cyrff Hyd Braich Llywodraeth Cymru a Chomisiynwyr Cymru (16 Medi 2019)

PAC(5)-24-19 Papur 5 - Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol (27 Medi 2019)

Shan Morgan – Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru

Gawain Evans – Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru

Peter Kennedy – Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Llywodraeth Cymru

David Richards – Cyfarwyddwr Moeseg a Llywodraethu, Llywodraeth Cymru

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

(14.45)

## 5 Craffu ar Gyfrifon: trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(14.45 – 15.15)

**Ymateb i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar wasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau**

**Darparwyd gan: Vaughan Gething AC, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Dyddiad: **Medi 2019**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r 8 argymhelliad sydd ynddo. Er ein bod yn cydnabod rôl Llywodraeth Cymru o ran arwain a bod gwasanaethau y tu allan i oriau yn rhan o'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru a'r gwasanaethau gofal heb ei drefnu, dylid nodi mai cyfrifoldeb statudol byrddau iechyd o hyd yw darparu gwasanaethau y tu allan i oriau.

Mae Llywodraeth Cymru a'r GIG wedi gwneud cryn dipyn o waith dros y ddwy flynedd ddiwethaf i ddatblygu gwasanaethau y tu allan i oriau. Mae llawer o'r gwaith hwn yn ymateb yn uniongyrchol i argymhellion adroddiad gwreiddiol Swyddfa Archwilio Cymru ac yn rhoi cyd-destun i'r argymhellion a geir yn Adroddiad y PCC. Gellir gweld crynodeb mwy manwl o'r gwaith hwn yn Atodiad 1.

**Argymhelliad 1: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod capasiti yn y gwasanaeth y tu allan i oriau i roi sicrwydd i gleifion a'u helpu i ddefnyddio'r gwasanaethau sydd fwyaf priodol i'w hanghenion.**

**Derbyn**

Y byrddau iechyd sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau y tu allan i oriau. Gan ddefnyddio model a ddatblygwyd yn genedlaethol, maent wrthi'n cyflawni darn sylweddol o waith ar hyn o bryd i ddadansoddi a deall union natur ac amseriad y galw. Defnyddir hyn i sicrhau bod y rotas yn cynnwys y cydbwysedd cywir o glinigwyr i fodloni'r galw disgwyliedig hwn. Rydym yn disgwyl i'r model hwn gael ei dreialu dros y gaeaf ac y bydd yn cael ei roi ar waith fel mater o drefn yn 2019/20.

Mae'r byrddau iechyd yn rheoli sut y llenwir shifftiau ar gyfer pob grŵp staff y tu allan i oriau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i feddygon teulu. Caiff ffurflen ar lefelau staffio clinigol ei rhannu gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill ddwywaith yr wythnos. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar gyfer galwadau cynhadledd dyddiol Gweithrediaeth y GIG, ac yn cael eu trafod at ddibenion hwyluso cynllunio gweithredol a chydnerthedd.

Mae datblygu un Cyfeiriadur Gwasanaethau canolog, ar draws Iechyd, Awdurdodau Lleol a'r trydydd sector, yn parhau i fod yn elfen hanfodol wrth gefnogi gofal sylfaenol brys – yn enwedig pan fo ystod gynyddol o wasanaethau iechyd a gwasanaethau llesiant yn gweithio o fewn ac ar draws ffiniau sefydliadol. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol er mwyn cyfeirio cleifion i'r gwasanaeth cywir, boed hynny gan y cleifion eu hunain neu gan weithwyr proffesiynol neu'r gwasanaeth 111. Er enghraifft, yn yr haf lansiwyd Ap Iechyd a Llesiant sy'n darparu mynediad i'r Cyfeiriadur Gwasanaethau ar gyfer gweithwyr proffesiynol, tra bod gan y cyhoedd fynediad i wefannau DEWIS a Galw Iechyd Cymru y GIG.

**Argymhelliad 2: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ffordd y mae'n dyrannu cyllid i fyrddau iechyd ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau er mwyn sicrhau bod y dyraniadau'n adlewyrchu'r anghenion gwasanaeth presennol yn fwy cywir ac yn rhoi mwy o dryloywder o ran buddsoddiad a gwariant gwirioneddol.**

**Gwrthod**
Mae cyllid ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau yn cael ei gynnwys o fewn y dyraniad cyffredinol ar gyfer byrddau iechyd. Mae'r argymhelliad yn canolbwyntio ar y dyraniad. Y byrddau iechyd sydd i benderfynu ar lefel briodol y buddsoddiad yn y gwasanaethau hyn, gan ddefnyddio naill ai'r dyraniad GMC, neu trwy dynnu ar eu lefelau sylweddol o gyllid dewisol. Nid yw hyn felly yn y uniongyrchol gysylltiedig â dyraniadau canolog. Mae'r cyfuniad hwn o gyllid yn adlewyrchu'r amrywiaeth ehangach o wasanaethau sydd bellach yn eu lle i gefnogi gwasanaethau y tu allan i oriau. Mae'n hanfodol bod sefydliadau lleol yn deall gwasanaethau lleol. O ystyried hyn, rydym yn cytuno y byddai'n amserol adolygu'r diffiniad cyfredol o wariant i sicrhau bod arian yn fwy tryloyw ac yn adlewyrchu'r ystod ehangach o wasanaethau sydd ar waith bellach i gefnogi mynediad y tu allan i oriau.

**Argymhelliad 3: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu arfer da ar draws byrddau iechyd yng Nghymru wrth wneud gwasanaethau y tu allan i oriau'n lleoedd mwy deniadol i weithio ynddynt, fel y dull gweithredu a fabwysiadwyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.**

**Derbyn**
Mae hyn eisoes ar y gweill. Cynhaliwyd Adolygiad Cymheiriaid o bob Bwrdd Iechyd ddiwedd Hydref 2018. Roedd sicrhau bod y tu allan i oriau gwaith yn lle gwell i weithio yn thema bwysig, gyda'r adolygiad yn rhoi cyfle i rannu arferion gorau.

Yn dilyn yr adolygiad, cynhyrchwyd adroddiad cryno a oedd yn nodi'r arferion gorau o bob rhan o Gymru, ac fe rannwyd hyn â'r holl fyrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn gynharach eleni. Ymhellach, mae Fforwm Ansawdd a Diogelwch y Tu Allan i Oriau / 111 Cymru Gyfan, sy'n gyfarfod o arweinwyr clinigol a rheolwyr, wedi ad-drefnu gan atgyfnerthu'r broses o rannu arferion gorau yn ymwneud ag ansawdd, diogelwch a rheolaeth. Er enghraifft, mae'r adran glinigol yn rhannu ac yn dysgu o ddigwyddiadau clinigol a damweiniau agos, tra bod yr adran reoli wedi helpu i gyflawni'r polisi newydd sy'n ymwneud â hyfforddiant Dilysu Marwolaeth. Bydd gwefan newydd yn cael ei lansio yn y mis Medi a'i nod fydd darparu ystod o wybodaeth i helpu i hysbysu clinigwyr am fanteision gweithio y tu allan i oriau arferol (gweler hefyd Argymhelliad 4 isod).

Nododd yr adolygiad cymheiriaid fod 'unigedd' yn ffactor allweddol ym mhenderfyniad rhai clinigwyr i beidio â gweithio y tu allan i oriau. Mae llawer o waith i'w wneud o hyd ond mae'r newid i weithio mewn timau amlddisgyblaethol, gweithredu 111 a gosod y gwasanaethau y tu allan i oriau o fewn y model gofal sylfaenol 24/7 oll yn helpu i leihau'r teimlad hwn o unigedd, gan wneud gweithio y tu allan i oriau yn gynnig llawer mwy deniadol ar gyfer yr holl staff.

**Argymhelliad 4: Mae pryder gennym am y dirywiad cyffredinol yn nifer y meddygon teulu ar gyfer gwasanaethau yn ystod y dydd ar draws Cymru, yn ogystal â gwasanaethau y tu allan i oriau. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu polisïau i gynyddu nifer y meddygon teulu.**

**Derbyn**
Mae'r ymgyrch *Hyfforddi, Gweithio, Byw* yn mynd ati'n ddiwyd i dargedu meddygon teulu a meddygon teulu dan hyfforddiant ac fe'i cefnogir gan 2 gynllun cymhelliant i feddygon teulu dan hyfforddiant. Mae'r gyfradd lenwi ar gyfer hyfforddiant meddygon teulu wedi gwella'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac, o ganlyniad, rydym wedi cynyddu nifer y lleoedd i feddygon teulu o 136 i 160 eleni, gyda'r bwriad o gynyddu nifer y lleoedd ymhellach yn y dyfodol agos. Rydym hefyd yn gweithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i gynyddu nifer y llefydd hyfforddi meddygon teulu eto fyth o Awst 2021 ymlaen.

Rydym hefyd wedi cyflwyno ac yn parhau i ddatblygu nifer o adnoddau i gefnogi cynaliadwyedd y gweithlu gofal sylfaenol, gan gynnwys sefydlu Cofrestr Locwm Cymru gyfan o feddygon teulu locwm. Dyma gam cyntaf allweddol i strwythuro'r gwaith sesiynol a ddarperir i gefnogi'r partneriaid ymhlith meddygon teulu sy'n gweithio yng Nghymru.

Mae Addysg Iechyd a Gwella Cymru (AaGIC) wedi ymgymryd â phrosiect i fynd i'r afael ag anawsterau recriwtio staff y tu allan i oriau drwy ddatblygu gwefan benodol sy'n ymroddedig i Ofal Sylfaenol y Tu Allan i Oriau. Diben y wefan yw amlygu cyfleoedd yn y gwasanaeth y tu allan i oriau a denu darpar staff a staff presennol. Bwriedir lansio'r wefan ym mis Medi 2019.

**Argymhelliad 5: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datrys problemau sy'n ymwneud ag ansawdd y data sydd ar gael ar nifer y meddygon teulu fel mater o frys oherwydd bod angen data gwell, gan gynnwys ar ofal y tu allan i oriau. Os mai timau amlddisgyblaethol sy'n darparu'r gwasanaethau y tu allan i oriau, mae'n hanfodol gwybod pwy sy'n gweithio ym mhob tîm, i ble y maent yn darparu'r gwasanaeth, a gallu olrhain nifer y staff dros y blynyddoedd.**

**Derbyn**
Mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) gaffael a gweithredu System Genedlaethol ar gyfer Adrodd am y Gweithlu (WNWRS), sy'n darparu adnodd diogel ar y we a ddatblygwyd i gadw'r wybodaeth am **holl** staff Practisau Cyffredinol.

Yn sgil cyflwyno'r system WNWRS, rydym yn gobeithio gwella ansawdd y data yn gyffredinol ac rydym yn parhau i weithio gyda'r holl randdeiliaid perthnasol i sicrhau bod y data o'r safon uchaf. Rydym yn dibynnu ar y meddygfeydd i ddarparu gwybodaeth mor gyflawn a chywir â phosibl i gefnogi'r broses o gynhyrchu ystadegau o ansawdd uwch.

Byddwn yn archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu'r cynllun hwn ymhellach gyda NWSSP, i ystyried sut y gellir casglu gwybodaeth am glinigwyr sy'n gweithio y tu allan i oriau a datblygu cynnig erbyn diwedd Rhagfyr 2019. Os na fydd y datblygiad hwn yn ymarferol, byddwn yn gweithio gyda byrddau iechyd a chlystyrau gofal sylfaenol i gasglu data cywir a chyflawn ar y gweithlu ar gyfer meddygon teulu sy'n gweithio mewn lleoliadau amgen, gan gynnwys gwasanaethau y tu allan i oriau.

**Argymhelliad 6: Rydym yn pryderu ei bod yn ymddangos bod nifer o broblemau'n codi yn sgil anghydraddoldebau cyflog meddygon teulu o gymharu hyn â'r sefyllfa yn Lloegr, yn ogystal â materion trethiant fel yr adroddwyd i ni mewn tystiolaeth. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael â'r problemau hyn ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y camau gweithredu a gymerwyd i wneud hynny.**

**Gwrthod**
Er yr ymddengys fod rhywfaint o hanes o anghydraddoldebau cyflog yn nwyrain ardal Betsi Cadwaladr, nid oes gennym dystiolaeth gadarn o hyn ac nid yw'n ymddangos bod hwn yn fater cenedlaethol. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r materion yn ymwneud â threthiant mewn perthynas ag IR 35 CThEM ond mae'r rhain yn faterion sydd heb eu datganoli. Mae byrddau iechyd wedi gweithredu ar y cyd mewn ymateb i'r materion hyn, tra bod Llywodraeth Cymru wedi olrhain cynnydd ac effaith. Fodd bynnag, mae pryderon mwy a mwy cyffredinol gyda phensiynau ac mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn mynd ar drywydd y rhain gyda Llywodraeth y DU.

**Argymhelliad 7: Rydym yn argymell bod yr arfer da ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, o ran atgyfnerthu'r ffordd y mae'n rheoli perfformiad, yn cael ei rannu â byrddau iechyd eraill a bod Llywodraeth Cymru yn edrych yn fanylach ar sut y gall wella trefniadau o ran rhannu arfer da. Efallai y bydd angen i Lywodraeth Gwasanaeth gofal sylfaenol y tu allan i oriau Cymru ystyried rhoi mwy o gyfarwyddyd, lle y bo'n bosibl, o ran arfer o'r fath a monitro cydymffurfiaeth â chyfarwyddiadau a roddir.**

**Derbyn**
Rydym yn gweithio gyda chymuned y tu allan i oriau yng Nghymru i gryfhau'r pwyslais ar ddeall natur y galw o fewn byrddau iechyd unigol o ran amrywiaeth yr achosion ac amser y dydd. Mae hyn yn cynnwys datblygu'r arfer da sydd eisoes wedi'i ddatblygu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro o ran modelu galw a chapasiti fel y gellir ei ddefnyddio ledled Cymru. Mae model 'Unwaith i Gymru' wedi cael ei ddatblygu ac mae'n cael ei brofi gan bob Bwrdd Iechyd y gaeaf hwn gyda'r bwriad o'i gyflwyno'n ffurfiol yn barod i'w ddefnyddio yn 2019/20. Credwn mai datblygu'r model clinigol yn seiliedig ar alw yw'r allwedd. Unwaith y bydd y cerrig sylfaen hyn yn eu lle byddwn yn cynyddu'r pwyslais ar reoli perfformiad.

**Argymhelliad 8: Rydym yn argymell bod ein pwyllgor olynol yn y chweched Cynulliad yn trafod cynnydd a llwyddiant gweithredu'r gwasanaeth 111 ar ôl ei gyflwyno'n llawn yn 2021/22.**

**Wedi'i nodi**
Rydym yn falch o **nodi** bod y Pwyllgor yn cydnabod llwyddiant y broses o gyflwyno 111 hyd yma ac yn cydnabod y cyfleoedd a ddaw yn sgil y gwasanaeth. Byddem yn croesawu pe bai pwyllgor y chweched cynulliad yn edrych ar gynnydd a llwyddiant y gwasanaeth 111. Bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i GIG Cymru yn y dyfodol ac rydym wrthi'n cefnogi nifer o fentrau i sicrhau ei lwyddiant yn yr hirdymor.

**Atodiad 1**

## Cynnydd yn dilyn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar y gwasanaethau y tu allan i oriau – Awst 2018

### Cefndir

Er ein bod yn falch o nodi bod adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod bod gan y cyhoedd barch mawr tuag at wasanaethau y tu allan i oriau, roeddem yn derbyn bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn gyfraniad defnyddiol at ddarparu gwasanaeth y tu allan i oriau effeithiol yng Nghymru. Fel mewn rhannau eraill o'r DU, cafwyd problemau yn recriwtio staff clinigol, yn enwedig meddygon teulu yn y cyfnod y tu allan i oriau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Dros y 2 flynedd ddiwethaf, mae Llywodraeth Cymru, gan weithio'n agos gyda'r GIG, wedi bod yn canolbwyntio ar y meysydd a amlygir yn adroddiad y Swyddfa Archwilio gan ddarparu camau gweithredu cenedlaethol a lleol sy'n gwneud y system yn fwy cydnerth. Ar yr un pryd, mae'r gwaith o gyflwyno 111 wedi cynyddu cydnerthedd ac wedi creu cyfleoedd ar gyfer cynyddu a gwella gwaith rhanbarthol a chenedlaethol.

Gwnaeth Swyddfa Archwilio Cymru 8 o brif argymhellion a chredwn fod cryn dipyn o waith wedi'i wneud, a bod llawer ohono ar y gweill cyn cyhoeddi'r Adroddiad, ond oherwydd amseriad yr adroddiad nid oedd y gwaith maes yn cael ei gydnabod yn llawn o reidrwydd yn yr adroddiad terfynol.

Yn benodol, roeddem yn cydnabod yr alwad am fwy o gyfranogiad ac arweiniad gan Lywodraeth Cymru a'r GIG ac mae Judith Paget, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, wedi bod yn darparu arweiniad strategol, gan gadeirio'r Grŵp Gwasanaeth Gofal Sylfaenol Brys (y tu allan i oriau), sy'n cydgysylltu camau gweithredu allweddol ar daith tuag at integreiddio gwasanaethau'n well fel rhan o'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru.

Ein huchelgais yw sicrhau mwy o gysondeb a thegwch o ran darparu gwasanaethau y tu allan i oriau ledled Cymru, gan ddysgu o'r arferion gorau sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, dylid cofio mai'r Byrddau Iechyd yn y pen draw sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau.

### Y Model Gofal Sylfaenol i Gymru

Mae'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau Gofal Sylfaenol dros y cyfnod 24/7 y mae gwasanaethau y tu allan i oriau yn rhan bwysig ohono. Mae cydnerthedd gwasanaethau yn ystod oriau arferol, a mynediad at y gwasanaethau hynny, yn cael effaith allweddol ar wasanaethau Y Tu Allan i Oriau (OoH). Felly, mae gwasanaethau Y Tu Allan i Oriau yng Nghymru bellach yn cael eu cynllunio yng nghyd-destun strategol y Model Gofal Sylfaenol i Gymru.

Mae'r model, sy'n cefnogi'r weledigaeth a amlinellir yn Cymru Iachach, yn seiliedig ar gydweithredu ar lefel leol iawn drwy'r clystyrau gofal sylfaenol i gynllunio gofal a chymorth i ddiwallu anghenion y boblogaeth. Mae cynllunio a chyflenwi dan

arweiniad clwstwr yn golygu gofal effeithiol a di-dor gan dîm aml-broffesiynol 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, gyda blaenoriaeth i'r bobl salaf.

Yn y cyd-destun hwn, mae ein dull yn rhan annatod o wasanaeth 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Gwyddom y gall gwasanaethau a ddarperir yn ystod oriau arferol effeithio ar y galw am wasanaethau y tu allan i oriau. Mae rhai meddygfeydd teulu ledled Cymru yn wynebu heriau o ran cyflawni cynaliadwyedd a hygyrchedd. Rydym yn gweithio'n agos gyda byrddau iechyd a meddygfeydd teulu i fynd i'r afael â'r heriau o ran recriwtio meddygon teulu ac i gyflwyno mynediad at amrywiaeth ehangach o weithwyr iechyd proffesiynol a chyfeirio pobl at wasanaethau lleol eraill megis fferyllfeydd cymunedol.

O ran denu mwy o feddygon teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill i Gymru, lansiwyd ein hymgyrch genedlaethol a rhyngwladol "Dyma Gymru: Hyfforddi, Gweithio, Byw" ym mis Hydref 2016 i farchnata Cymru a GIG Cymru fel lle gwych i feddygon, gan gynnwys meddygon teulu. Mae'r ymgyrch wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y gyfradd lenwi ar gyfer hyfforddiant meddygon teulu. Yn dilyn pob cylch recriwtio eleni, mae 98% o'r llefydd hyfforddi meddygon teulu wedi'u llenwi - 134 o'r 136 o lefydd oedd ar gael. Mae'n gadarnhaol bod mwy o feddygon yn dewis hyfforddi fel meddygon teulu yng Nghymru.

Fel y nodwyd, ein strategaeth yw ehangu timau amlddisgyblaethol mewn gofal sylfaenol, gan gynnwys gweithwyr y tu allan i oriau, dan arweiniad meddygon teulu, trwy fuddsoddi mewn amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol, megis ymarferwyr uwch, fferyllwyr clinigol, clinigwyr iechyd meddwl a ffisiotherapyddion.

Rydym yn mynd ati hefyd i ddiwygio'r contract cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau i wella'r ffordd y cânt eu cynllunio a'u darparu, gan arwain at wasanaethau mwy cynaliadwy a hygyrch.

Ers diwygio contract y meddygon teulu yn 2004 a welodd gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau yn cael eu tynnu allan o'r contract gwasanaethau meddygol cyffredinol, mae'r model ar gyfer darparu gwasanaethau o fewn oriau a thu allan i oriau wedi'i reoli a'i ddarparu drwy ddarparwyr gwahanol (h.y. Mae'r gwasanaethau y tu allan i oriau yn cael eu darparu'n uniongyrchol gan y Byrddau Iechyd a Shropdoc, menter gymdeithasol nid-er-elw ym Mhowys). Fodd bynnag, cydnabyddir bod yna 'linyn euraid' gofal brys sy'n rhedeg ar draws y gwasanaethau yn ystod oriau gwaith a thu allan i oriau. Mae'n amlwg bod rheoli gofal sylfaenol brys yn ystod oriau gwaith yn cael effaith ar wasanaethau gofal sylfaenol brys y tu allan i oriau ac i'r gwrthwyneb. Felly, mae angen inni ystyried y cynnig gofal sylfaenol brys 24/7 yn ei gyfanrwydd gan gydnabod y bydd darparu gwasanaethau ychydig yn wahanol yn ystod oriau gwaith a thu allan i oriau.

Fel rhan o'r gwaith o weithredu'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru, mae gan y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol bum ffrwd waith penodol i ddatblygu camau gweithredu ar lefel genedlaethol i gefnogi'r gwaith o weithredu'r model gofal sylfaenol i Gymru ar lefel leol. Ffrwd waith allweddol yn hyn o beth yw *Ffrwd waith y model 24/7*, wedi'i labelu'n fwriadol i sicrhau ein bod yn ystyried beth yw'r cynnig cyffredinol i'r cyhoedd. Cydnabyddir bod y gwasanaethau gofal brys sy'n cael eu cynnig i'r cyhoedd gan wasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol ledled Cymru yn wahanol

iawn, yn dibynnu ar yr adeg o'r dydd, a lleoliad y darpar glaf yn aml. Mae'r ffrwd waith hon yn ceisio sicrhau, cyn belled ag y bo'n bosibl, bod y gwasanaeth a gynigir yn gyson ac yn briodol o ran amser y dydd ac yn ddaearyddol. Er ein bod yn cydnabod y bydd y gwasanaethau a ddarperir ychydig yn wahanol yn ystod oriau gwaith a thu allan i oriau, dylai egwyddorion ac elfennau cyffredinol y model fod yr un fath, er enghraifft systemau trafod galwadau, y tîm amlddisgyblaethol estynedig a'r seilwaith gwasanaethau cymunedol ehangach (elfennau allweddol yn y Model Gofal Sylfaenol i Gymru).

Mae'r ffrwd waith 24/7 yn canolbwyntio ar wasanaethau gofal brys o fewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol a dylai ategu gwaith y Bwrdd Gofal Heb Ei Drefnu Cenedlaethol. Bydd y ffrwd waith yn ymdrin â'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r adolygiad cymheiriaid diweddar o wasanaethau y tu allan i oriau, buddsoddiadau mewn gwasanaethau sylfaenol a chymunedol sy'n gysylltiedig â chyfnod y gaeaf, metrigau a dulliau uwchgyfeirio o fewn gofal sylfaenol, mynediad i holl ôl-troed contractwyr annibynnol mewn ardal a'r defnydd ohono a llwyddiant darparu gwasanaeth brysbennu clinigol yn ystod oriau gwaith gwasanaethau meddygol cyffredinol a'r opsiynau cysylltiedig. Bydd gan y gwaith hwn friff cadw llygad ar ddatblygiad y segmentu poblogaeth a haenu risgiau ar lefel clwstwr.

**Arweinyddiaeth**

Mae gwaith y Grŵp Gofal Sylfaenol Brys (y tu allan i oriau), a gadeirir gan Judith Paget, yn parhau i ganolbwyntio ar faterion penodol ar gyfer y gwasanaethau y tu allan i oriau sydd eisoes wedi'u nodi. Fodd bynnag, ceir aliniad cryf â'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol a, lle y bo'n briodol, mae camau gweithredu'n cael eu datblygu drwy ffrwd waith y Rhaglen Strategol er mwyn sicrhau ein bod yn darparu model 'cyfunol' ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft:

- Cynlluniau ar gyfer y gaeaf - bydd y ffrwd waith 24/7 yn ystyried yr holl fuddsoddiadau diweddar mewn gofal sylfaenol a chymunedol (ar draws oriau a'r tu allan i oriau) er mwyn datblygu canllaw ar gyfer dim mwy na 10 gwasanaeth/menter o fewn gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol sy'n ychwanegu gwerth sylweddol i'r system gyfan o ran rheoli galw a chapasiti cyflenwi ar adegau galw brig.
- Metrigau ac offer uwchgyfeirio - unwaith eto, nid yw'r rhain wedi eu datblygu ddigon o fewn gofal sylfaenol o gymharu â gofal eilaidd. Un o ganlyniadau'r ffrwd waith 24/7 yw sicrhau bod yna ddulliau uwchgyfeirio ar waith sy'n caniatáu asesiad cyflym o ystyriaethau capasiti mewn gofal sylfaenol (o fewn a thu allan i oriau) gyda mecanweithiau cymorth yn eu sgil.
- Gwasanaethau a llwybrau cymunedol ehangach – un ffocws yn y ffrwd waith 24/7 yw ymateb gwasanaeth cymunedol cyson a safonol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol sy'n atal derbyniadau brys i'r ysbyty y gellir eu hosgoi. Gwyddom fod yna bwysau arbennig ynghlwm wrth anghenion gofal cymdeithasol heb eu trefnu y tu allan i oriau, felly mae'n bwysig bod y ffocws yn ehangach nag iechyd yn unig.

Yn ystod y misoedd nesaf, y bwriad yw y bydd y camau gweithredu sy'n ymwneud â gwasanaethau y tu allan i oriau yn cyd-fynd â'r Rhaglen Strategol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae angen i'r Grŵp Gofal Sylfaenol Brys (y tu allan i oriau) barhau i

sicrhau ffocws a phroffil ar rai o'r meysydd hollbwysig a nodwyd ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau. (I'w nodi, y Bwrdd Gofal Sylfaenol Cenedlaethol sy'n gyfrifol am lywodraethiant trosfwaol y Rhaglen Strategol a'r Grŵp Gofal Sylfaenol Brys).

Roedd y broses adolygiad cymheiriaid a gyflwynwyd yn 2018 (ac sydd i'w hailadrodd yn 2019), yn adolygiad dan arweiniad clinigol o wasanaeth y tu allan i oriau pob bwrdd iechyd, a gynlluniwyd i weithredu fel 'cyfaill beirniadol' i gynnig cyngor a chymorth fel rhan o'r gwaith o ddatblygu gwasanaeth y tu allan i oriau diogel ac effeithiol.

Arweiniwyd y Panel Adolygiad Cymheiriaid gan Gadeirydd annibynnol (Dr CDV Jones) gydag aelodaeth yn cynnwys Cyfarwyddwyr Clinigol, arweinwyr gweithredol, Cyfarwyddwyr Meddygol Cysylltiol, Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol, Rhaglen 111, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), RCGP a Llywodraeth Cymru. Roedd y canlyniadau arfaethedig yn cynnwys:

- cydnabod arferion da a dysgu a rennir;
- darparu cefnogaeth gadarnhaol gan gymheiriaid ar gyfer gwella;
- cynnig mwy o eglurder o ran cyfeiriad i GIG Cymru mewn perthynas â'r trawsnewidiad ehangach mewn gofal sylfaenol brys a mwy o gysondeb o ran gweithredu gwasanaethau yn ystod oriau gwaith a thu allan i oriau (24/7); a
- helpu i ddatblygu model cynaliadwy i Gymru sy'n canolbwyntio ar atebion dan arweiniad clinigol.

Roedd yr allbwn o bob adolygiad yn cynnwys adroddiad cryno a chynllun gweithredu a gymeradwywyd gan arweinwyr clinigol lleol a'r tîm gweithredol ehangach.

Y prif negeseuon a ddeilliodd o ymweliadau'r adolygiad cymheiriaid oedd:

- Canfu timau clinigol a'u sefydliadau ehangach fod ymweliadau'r adolygiad cymheiriaid yn adeiladol ac yn cynorthwyo gyda dysgu ehangach a rhannu arferion gorau.
- Mae angen cryfhau cynlluniau gweithlu lleol a chenedlaethol i sicrhau eu bod yn cefnogi meddygon teulu sy'n arwain ac yn gweithio o fewn tîm amlddisgyblaethol ehangach.
- Dylai Gofal Sylfaenol Brys (y tu allan i oriau) fabwysiadu dull mwy cyson o gynllunio galw a chapasiti sy'n gysylltiedig â modelu'r gweithlu.
- Nawr bod BILlau i gyd ar yr un fersiwn o Adastra, dylai fod yn bosibl meincnodi mewn modd mwy cyson.
- Mae sicrhau prosesau brysbennu clinigol ac anghlinigol effeithiol yn hanfodol i effeithiolrwydd y llwybrau gofal brys. Mae tîm 111 yn helpu i safoni'r dulliau gweithredu hyn ledled Cymru, ac yn gynyddol bydd mwy o gyfle i ddatblygu'r rhain ar lefel ranbarthol neu genedlaethol.
- Yn gynyddol, bydd yr integreiddio rhwng 111, Galw Iechyd Cymru, a'r gwasanaethau y tu allan i oriau yn cynnig cyfleoedd sylweddol ar gyfer cydnerthedd ehangach y system.
- Gallai rôl canolfan glinigol 111 (dros amser) gynnig cyngor a chymorth gofal brys yn gynyddol ar gyfer nifer o lwybrau clinigol allweddol megis iechyd meddwl, gofal deintyddol a lliniarol a chyngor pediatrig.

- Mae cynnal a diweddaru un cyfeiriadur canolog o wasanaethau (ar draws iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector) yn parhau i fod yn elfen hanfodol i gefnogi gofal sylfaenol brys – yn enwedig pan fo ystod gynyddol o wasanaethau.
- Nododd yr adolygiad cymheiriaid amrywiadau o ran adrodd am ddigwyddiadau difrifol, damweiniau agos ac achosion nad oedd byth yn digwydd. Dylai prosesau gael eu hadolygu a'u cryfhau'n lleol er mwyn sicrhau dysgu parhaus rhwng timau clinigol (yn lleol ac yn genedlaethol) ac at ddibenion llywodraethu clinigol ehangach. Mae'r Fforwm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol Brys / Y Tu Allan i Oriau wedi adolygu eu dulliau adrodd i sicrhau eu bod yn gadarn ac effeithiol ac wedi'u cysylltu â strwythurau llywodraethu priodol o fewn pob sefydliad.
- Mae amgylcheddau gwaith lleol yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn ffafriol i ofal cleifion a lles staff a, lle bo hynny'n briodol, eu bod yn cael mynediad at ystod debyg o wasanaethau a'u cydweithwyr sy'n gweithio o fewn oriau arferol.
- Roedd BILlau, 111 a Llywodraeth Cymru yn cefnogi'n frwd ystod o fentrau fel rhan o'r cynllunio ar gyfer y gaeaf yn 2018/19. Canolbwyntiwyd yn benodol ar fewnbwn ehangach timau amlddisgyblaethol gan gynnwys cymorth i fferyllfeydd, iechyd meddwl, gofal lliniarol, uwch ymarferwyr parafeddygol (APPs), Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd a mentrau i gefnogi mynediad gwell at ofal deintyddol brys. Mae pob cynllun wedi'i werthuso a'i gefnogi'n frwd (fel arfer am 3-6 mis) i sicrhau bod manteision cynlluniau o'r fath yn cael eu deall yn llawn. Cadwyd y mwyafrif o'r cynlluniau yn eu lle tan ar ôl y Pasg o leiaf.
- Mae'n hanfodol bod yr agenda gofal sylfaenol brys yn cael ei chynnal gan y swyddogion gweithredol a'i goruchwylio.
- Mae nifer o gynlluniau peilot wedi'u cychwyn ar draws sefydliadau sy'n adlewyrchu arferion sefydledig (da). Cytunodd timau gweithredol a chlinigol y dylai'r rhain, yn y rhan fwyaf o achosion, yn amodol ar werthusiad priodol, gael eu prif ffrydio a'u cydnabod fel dull arferol o weithredu).

Yn gyffredinol, roedd y Panel Adolygiad Cymheiriaid yn edmygu'r ymroddiad a'r ymrwymiad parhaus a ddangoswyd gan yr holl staff a'u pwyslais parhaus ar ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Roedd 'angerdd' amlwg dros sicrhau newid cynaliadwy hirdymor yn cyd-fynd â'r agenda gofal sylfaenol brys 24/7 ehangach a'r rhaglen 111 genedlaethol.

Cydnabuwyd y gall gwasanaethau y tu allan i oriau gynnig cyfleoedd gweithio a hyfforddi ardderchog i staff. Gall roi cyfle i hyfforddeion a gweithwyr proffesiynol sydd newydd gymhwyso gael dealltwriaeth lawnach o'r system gofal brys ac argyfwng a thrwy sefydlu rhaglen gynefino a mentora barhaus strwythuredig, er mwyn gwella recriwtio a chadw.

Mae gan fyrddau iechyd garfan newydd o arweinwyr clinigol a staff gweithredol sydd yn aml ar flaen y gad yn datblygu dulliau newydd o ymdrin â gofal sylfaenol brys yn lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol.

Mae'r safonau newydd a uwchraddiwyd mewn ymgynghoriad â chlinigwyr a rheolwyr yn y gwasanaeth yn allweddol i ddatblygu'r model cyflawni newydd ac ymateb o safon uchel i gleifion.

**Staffio**

Mae newidiadau IR35 CThEM heb eu datganoli i 'weithio oddi ar y gyflogres' yn y sector cyhoeddus wedi cael effaith ar y ffordd y caiff meddygon teulu eu trethu. O Ebrill 2017 mae unrhyw fwrdd iechyd sy'n rhoi gwaith i feddygon teulu drwy gwmni gwasanaethau personol yn gyfrifol am benderfynu a yw'r rheolau IR35 yn berthnasol i'r meddygon teulu hynny y maen nhw'n rhoi gwaith iddynt ac felly a oes rhaid iddynt ddidynnu'r swm priodol o dreth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol yn y ffynhonnell.

At hynny, daeth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i'r casgliad y dylai meddygon teulu sy'n gweithio'n uniongyrchol i BILlau, boed mewn gwasanaethau y tu allan i oriau neu fel locwm, gael eu trin o fewn cwmpas IR35 ac felly y dylent fod 'ar y gyflogres' gyda'r nod y caiff Didyniadau TWE ac Yswiriant Gwladol eu didynnu yn y ffynhonnell. Daeth y newid hwn i rym ar 1 Tachwedd 2017.

Yn ôl adborth gan fyrddau iechyd lleol, nid yw effaith y dyfarniad gan CThEM wedi bod yn arwyddocaol o ran llenwi neu recriwtio gwasanaethau y tu allan i oriau arferol yn GIG Cymru fel y disgwylid i ddechrau.

Mae amrywiaeth eang o fentrau cenedlaethol a lleol ar waith i wneud y gwasanaeth y tu allan i oriau yn lle mwy deniadol i weithio. Yn aml, eu nod yw lleihau'r ymdeimlad cyffredinol o unigedd drwy: greu diwylliant tîm, cynyddu ei broffil (y tu allan i oriau), a chynnig rolau wedi'u diffinio'n glir i'r holl staff drwy ddatblygu fframwaith cymwyseddau trawsbynciol - clinigol, rheolaethol a gweinyddol, gwell cyfleoedd hyfforddi a datblygu, lleihau'r ddibyniaeth ar feddygon teulu a chyflwyno gweithwyr proffesiynol/rolau newydd. Er enghraifft:

- Gwaith ar alw/capasiti – o'i gymharu â gwasanaethau gofal eilaidd, nid yw'r adnoddau ar gyfer cefnogi capasiti galw wedi'u datblygu'n llawn gyda gofal sylfaenol. Fel rhan o grŵp gweithlu'r rhaglen strategol, mae modelau o ran capasiti galw yn cael eu hystyried er mwyn darparu dull 'unwaith i Gymru' ar gyfer gofal sylfaenol o fewn a thu allan i oriau. Bu'r gwasanaeth tu allan i oriau ar flaen y gad yn y gwaith hwn ac maent yn agos at weithredu un fethodoleg ar gyfer pob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru.
- Rolau Cymru gyfan ar gyfer gofal brys – mae is-grŵp o'r Grŵp Gofal Sylfaenol Brys (y tu allan i oriau) yn ystyried datblygu rolau cenedlaethol ac mae wedi datblygu cyfres o gymwyseddau craidd ar gyfer gofal brys. Bydd y gwaith hwn yn arbennig o bwysig wrth i ni ystyried defnyddio rôl ymarferwyr gofal brys o fewn oriau arferol a thu allan i oriau.
- Cynllun y gweithlu – mae'r gwaith o fodelu'r galw/capasiti a datblygu rolau gofal brys cenedlaethol yn hanfodol er mwyn llywio cynlluniau ar gyfer y gweithlu. Mae Grŵp Gweithlu'r Rhaglen Strategol yn datblygu'r gwaith o gynllunio'r gweithlu ar gyfer gwasanaethau y tu mewn a thu allan i oriau er mwyn rhoi'r adnoddau i glystyrau a Byrddau Iechyd ddatblygu cynlluniau gweithlu cadarnach ac, yn eu tro, lywio cynlluniau'r IMTP yn y dyfodol. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) wedi'i gysylltu'n llawn â grŵp y gweithlu felly gellir ystyried unrhyw ofynion addysgol neu hyfforddiant wrth iddynt godi.

- Datblygu gwefan – mae AaGIC wedi ymgymryd â phrosiect i fynd i'r afael ag anawsterau recriwtio staff i weithio y tu allan i oriau drwy gyfrwng datblygiad gwefan unswydd ar gyfer Gofal Sylfaenol y Tu Allan i Oriau a fydd yn darparu siop un stop o wybodaeth, addysg a manylion cyswllt uniongyrchol gwasanaethau y tu allan i oriau lleol. Diben y wefan yw tynnu sylw at gyfleoedd o fewn y gwasanaeth tu allan i oriau a denu a recriwtio darpar staff. Bydd lansio'r wefan ym mis Medi 2019 yn cyd-daro ag ymgyrch cyfryngau cymdeithasol fywiog i godi ymwybyddiaeth ynghylch y gwasanaeth y tu allan i oriau fel dewis gyrfa ymarferol ac yn cefnogi'r gwaith o farchnata cyfleoedd recriwtio a bydd yn cysylltu â gwefan newydd meddygon teulu Cymru. Mae'r amcanion fel a ganlyn:

  - Gwneud y Gwasanaeth Gofal Sylfaenol Brys y tu allan i oriau yn fwy deniadol i glinigwyr;
  - Ehangu'r gronfa o ddarpar staff drwy gynnig gwybodaeth a chymorth y gellir cael gafael arnynt yn hawdd, gan ennyn diddordeb mewn gweithio o fewn y gwasanaethau Gofal Sylfaenol Brys y Tu Allan i Oriau; a
  - Darparu adnoddau i hwyluso gweithgareddau recriwtio a chadw staff effeithiol.

**Safonau**

Cafodd yr hen (hyd at ddiwedd Mawrth 2019) *Safonau Ansawdd a Monitro Cymru ar gyfer Cyflenwi Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau* eu datblygu a'u cytuno yn 2014 gan is-grŵp 111 / y Tu Allan i Oriau'r Bwrdd Gofal Brys ac Argyfwng a oedd yn cynnwys y GIG a Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd pedair blynedd i'r gwasanaeth gyflawni'r rhain, erbyn 31 Mawrth 2018.

Yn dilyn cyflwyno 111, mae'r gymuned gwasanaethau y Tu Allan i Oriau / 111 wedi bod yn awyddus i greu un gyfres 'gyffredinol' o safonau a dangosyddion ansawdd. Y bwriad oedd datblygu cyfres o fesurau y gellid eu mabwysiadu, a'u defnyddio gan bob bwrdd iechyd, waeth a ydynt yn gweithredu 111 neu wasanaeth y tu allan i oriau ai peidio.

Mae'r safonau newydd (a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2019) yn seiliedig ar y *Safonau Ansawdd a Monitro Cymru ar gyfer Cyflenwi Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau* sy'n bodoli eisoes a *safonau interim 111*, ond yn unol â thystiolaeth gref yn seiliedig ar dystiolaeth barn glinigol, maent yn gyson â'r safonau cyfredol, neu wedi'u 'llacio' rhyw fymryn. Er enghraifft, mae ymweliadau cartref, lle y gall niferoedd isel iawn ystumio cyflawniadau o'r mesur wyneb yn wyneb, wedi'u dileu o Fframwaith Cyflawni'r GIG ar gyfer 2019/20 ac felly mae'r mesur bellach yn canolbwyntio ar bresenoldeb mewn Canolfannau Gofal Sylfaenol yn unig.

Fel y nodwyd, mae'r safonau newydd wedi'u seilio ar y safonau presennol ac maent wedi'u mireinio ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol yn y gwasanaeth, gan ddefnyddio arbenigedd gan gydweithwyr clinigol a'r rhai sy'n rheoli'r gwasanaethau y tu allan i oriau / 111. Mae'r safonau wedi'u mireinio drwy'r broses safonau gwybodaeth a chawsant eu cyflwyno ar gyfer sylwadau a thrafodaeth grwpiau rhanddeiliaid allweddol. Cafodd pob un o'r rhain gyfle i gyfrannu tuag at y safonau, gan gynnwys,

yn hollbwysig, Fforwm Tu Allan i Oriau'r Meddygon Teulu a Bwrdd Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Er y cydnabyddir yn gyffredinol bod y safonau'n her i'r gwasanaeth presennol, cytunwyd y byddai'r safonau 'ymestyn' hyn yn parhau i lywio'r gwaith o ddatblygu model y ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau. Byddant hefyd yn sbarduno gwelliannau, arloesi, gweithio rhanbarthol / cenedlaethol mewn modd darbodus. Bydd adroddiadau mewnol yn erbyn y safonau hyn yn dechrau ym mis Gorffennaf 2019 ond byddant yn cael eu cofnodi yn Adroddiad Blynyddol 2019/20.

Er bod y sail dystiolaeth yn dal i fod yn gymharol fach, ymddengys y bydd y gwaith o gyflawni'r safonau clinigol hyn yn well gan ddefnyddio model 111, gan ei gwneud yn haws cael y clinigwr iawn i'r person iawn ar yr adeg iawn.

**Perfformiad**

Mae mesur gwasanaethau y tu allan i oriau wedi bod yn daith gyson a pharhaus. Ers 2004, datblygodd gwasanaethau y tu allan i oriau yn annibynnol ar draws Cymru ac er eu bod yn defnyddio'r un system reoli, sef Adastra, roedd y cyfluniad lleol yn golygu nad oedd cysondeb, safonau na thegwch o ran mynediad at wybodaeth. O'r sylfaen isel hwn, lle nad oedd llawer o wybodaeth ar gael i redeg neu fesur y gwasanaeth, mae llawer o waith wedi'i wneud ar sail Cymru gyfan i sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael yn gyson hyd at bwynt lle:

Mae gwaith manwl yn cael ei wneud i fesur a deall y galw;

Mae'r gofynion o ran capasiti a llenwi sifftiau yn cael eu cofnodi mewn modd mwy ystyrlon a chyson;

Gellir mesur a monitro safonau'r gwasanaethau y tu allan i oriau blaenorol a newydd yn fwy cyson (er bod rhai problemau o hyd);

Mae'r canlyniadau clinigol sydd ar gael o fewn y system yn gyson ac mae modd eu defnyddio fwyfwy at ddibenion meincnodi;

Roedd gwybodaeth wrth wraidd yr ymarfer adolygiadau cymheiriaid; a
Cytunwyd ar safonau a'u rhoi ar waith.

Mae ein perfformiad diweddaraf yn dangos gwelliant yn erbyn y safonau ac mae tystiolaeth o wasanaethau y tu allan i oriau, a gasglwyd yn ystod yr adolygiad cymheiriaid ac wedyn wrth adolygu'r gaeaf yn dangos gwasanaeth sy'n gynyddol gydnerth. Serch hynny, mae hyn yn parhau i fod yn anodd ei ddangos ac rydym yn derbyn bod llawer o waith i'w wneud eto yn y maes hwn i ateb y galw cynyddol am wybodaeth am y model 24/7. Bydd cyflwyno model newydd yn gam mawr ymlaen ac mae llawer o'r ddeialog hyd yn hyn wedi ymwneud â'r data a'r wybodaeth.

**Y broses o gyflwyno 111**

Lle rydym yn cyflwyno 111 yng Nghymru, mae hyn eisoes yn gwneud gwasanaethau y tu allan i oriau yn fwy cydnerth - gellir gweld hyn yn Abertawe Bro Morgannwg, Hywel Dda, Powys ac yn fwy diweddar Aneurin Bevan, lle mae'r gwasanaeth 111

sy’n rheoli pobl ag anghenion brys yn y cyfnod y tu allan i oriau ar waith. Bydd y gwaith o gyflwyno’r rhaglen 111, sydd i’w gwblhau erbyn 2021/22, yn cefnogi gofal sylfaenol y tu allan i oriau ac yn darparu cyfle da trwy symleiddio’r broses o gael mynediad at wasanaethau i’r cyhoedd, gan ddarparu mwy o aliniad cenedlaethol o ran trafod galwadau a brysbennu clinigol.

Mae’r gwasanaeth 111 yn gwella mynediad drwy gyfeirio pobl at wasanaethau a ffynonellau cymorth lleol, gan ddefnyddio rhif ffôn rhad ac am ddim. Maes o law bydd hyn yn cael ei gyflawni gan ddefnyddio cyfleoedd amlgyfrwng/digidol eraill. Bydd mwy o waith rhanbarthol a chenedlaethol i ateb y galw am gyngor a thriniaeth ar adegau prysur ac i leihau’r gweithlu yn ddiogel ar adegau tawel.

Bydd cysylltiadau â chleifion yn cynyddu yn seiliedig ar waith tîm amlddisgyblaethol; bydd y rhain yn dibynnu llai ar feddygon teulu ond yn rhoi mwy o bwyslais ar eu rôl fel arweinwyr clinigol. Mae systemau cyfathrebu da yn golygu bod timau proffesiynol yn gallu cael mynediad at y cofnodion clinigol diweddaraf, sy’n hollbwysig fel bod pobl yn derbyn gofal priodol, yn enwedig y rhai â chyflyrau cymhleth a/neu ar ddiwedd eu hoes.

Mae cynlluniau ar waith i gyflwyno’r gwasanaeth ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg yn ddiweddarach yn 2019/20. Yna, bydd y system yn cael ‘seibiant’ yn ystod yr hydref 2019/20 i gyflwyno platfform TG 111 cenedlaethol newydd i gefnogi’r gwasanaeth. Ar ôl rhoi’r system TG ar waith, bydd y gwaith o gyflwyno’r gwasanaeth 111 yn cael ei ymestyn i fyrddau iechyd Betsi Cadwaladr a Chaerdydd a’r Fro.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

**Craffu ar Gyfrifon 2018-19**

**Argymhellion a gynhwyswyd yn Adroddiad y Pwyllgor ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18**

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd y mesurau angenrheidiol i atal swyddogion rhag gwrthod rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus eto (yn gyfrinachol os oes angen) ar y sail na chânt wneud hynny yn ôl y gyfraith (ac yn amlwg yn groes i A4.12.11).

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hamserlen ar gyfer cyhoeddi ei chyfrifon a'i hadroddiadau blynyddol yn flynyddol i helpu o ran tryloywder a dealltwriaeth o'r broses.

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor mewn perthynas â'i thrafodaethau â Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys y camau y cytunwyd arnynt i ymdrin â'r materion y daethpwyd ar eu traws wrth lunio ac archwilio cyfrifon 2017-18.

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro, i'r Pwyllgor, yr adnoddau sydd ganddi ar gyfer y broses, yn ogystal ag esbonio sut y mae'n sicrhau bod ganddi ddigon o sgiliau a galluoedd i ddarparu ei chyfrifon blynyddol.

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn trefnu bod gwybodaeth ariannol fanylach a gwybodaeth am berfformiad ar gael i'r cyhoedd. Dylai hyn gynnwys dadansoddiadau o wariant blynyddol ym mhob Prif Grŵp Gwariant a sut y mae'r rhaglenni hyn yn cyflawni yn erbyn canlyniadau arfaethedig. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth i alluogi'r cyhoedd i weld sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a hefyd adroddiadau am ei pherfformiad yn ystod y flwyddyn i gynyddu tryloywder ac atebolrwydd.

Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi mesurau ar waith i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg i gyhoeddi ei chyfrifon yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd.

Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr amserlen ar gyfer mynd â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol i'r Bwrdd ac yn rhannu'r canlyniad, yn ogystal â phapurau a drafodir gan y Bwrdd.

Argymhelliad 17. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i gydymffurfio â'r arfer gorau ym maes cyflwyno adroddiadau ariannol drwy gynnwys gwybodaeth am ei pherfformiad a mabwysiadu'r arfer hwn wrth lunio adroddiadau blynyddol a chyfrifon y flwyddyn nesaf, cyn cyhoeddi rhagor o ganllawiau i gyrff a noddir ganddi. Dylai'r adroddiadau blynyddol a'r cyfrifon, o leiaf, nodi sut y mae'r arian wedi'i wario a'r hyn y mae wedi'i gyflawni, gan gyfeirio at y targedau a bennwyd gan Weinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r perfformiad yn eu herbyn. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad o wariant yn erbyn nodau "Ffyniant i Bawb" (a'r rhaglenni dilynol) a thargedau sefydliadol eraill yn y cyfrifon, yn gyson â'r gwariant yr adroddir arno yn y datganiadau ariannol.

Argymhelliad 18. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud yn glir y gofynion y mae'n anelu at gydymffurfio â hwy wrth lunio ei hadroddiadau blynyddol a'i chyfrifon. Dylai hefyd fod yn glir ynghylch gofynion Cymru ar gyfer Adroddiadau Blynyddol a sicrhau bod pob corff yn cydymffurfio â'r canllawiau hyn, gan gynnwys hi ei hun. Bydd hyn yn helpu i ddarparu gwybodaeth ddigonol a phriodol gan alluogi gwaith craffu effeithiol.

Argymhelliad 19. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pa wybodaeth y gellir ei chynnwys yn ei chyfrifon er mwyn hyrwyddo tryloywder mewn perthynas â'r cymorth busnes a ddarperir heb ddigalonni darpar fuddsoddwyr.

Argymhelliad 20. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cysylltu â'i chymheiriaid yn Llywodraeth yr Alban i wella ei dealltwriaeth o rinweddau posibl cyflwyno Cyfrifon Llywodraeth Gyfan Cymru ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

Argymhelliad 21. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu â'r Pwyllgor ei chynllun gweithredu ar gyfer lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Argymhelliad 22. Mae’r Pwyllgor yn argymell, er mwyn helpu o ran tryloywder a hwyluso gwaith craffu, fod Llywodraeth Cymru yn ystyried a ellid cynnwys rhagor o wybodaeth yn ei chyfrifon yn y dyfodol i esbonio diben pecynnau ymadael a/neu gynlluniau diswyddo.

Argymhelliad 23. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth yn ei hadroddiadau blynyddol a’i chyfrifon blynyddol am y gweithgareddau effeithlonrwydd ar draws ei sefydliad. Dylai hyn gynnwys ei halldro yn erbyn y targedau a bennwyd, gydag esboniad lle nad yw nodau perfformiad wedi’u cyrraedd.

Argymhelliad 24. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu, cyn i’r Pwyllgor graffu ar ei chyfrifon ar gyfer 2018-19, ddiweddariad mewn perthynas â gwaith y Bwrdd Gwella Effeithlonrwydd ac, yn benodol, y camau a weithredwyd o ganlyniad i adolygiad Deloitte o’i wasanaethau corfforaethol.

Argymhelliad 25. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn esbonio’r rhesymau dros newid trywydd a sut y mae “menter Diogelu’r Dyfodol” yn wahanol i “Parod at y Dyfodol”, y cynllun a gyflwynwyd gan y cyn Ysgrifennydd Parhaol. Dylai hyn bennu sut y mae’r rhaglen newydd yn gweithio er mwyn gwella effeithlonrwydd y sefydliad, yn ogystal â datblygu ei gapasiti a’i ystwythder.

Argymhelliad 26. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro i’r Pwyllgor ei safbwynt o ran mabwysiadu Proffiliau Llwyddiant Gwasanaeth Sifil y DU a sut y bydd y rhain yn gweithio yng nghyd-destun Cymru, gan gynnwys y berthynas - neu fel arall - rhwng y dull gweithredu hwn a safonau a gwerthoedd ar gyfer hybu mewnol ar raddfeydd porth a ddatblygir gyda mewnbwn Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol a pha fframwaith sy’n cael blaenoriaeth.

Argymhelliad 27. Mae’r Pwyllgor yn argymell, er mwyn sicrhau ei bod yn gallu darparu goruchwyliaeth annibynnol a her i’r Weithrediaeth ac osgoi gwrthdaro buddiannau (gwirioneddol neu ganfyddedig), na ddylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ei Chyfarwyddwyr Anweithredol i wneud gwaith y tu hwnt i gwmpas eu rolau anweithredol.

Argymhelliad 28. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn esbonio'n llawn sut y bydd yn cael sicrwydd llawn, wedi'i ddogfennu, am y materion yr adroddwyd arnynt o'r blaen drwy'r weithdrefn galw i mewn.

Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary's Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf/Our Ref: DAO (Cymru) 03/19

Dyddiad 13 Medi 2019

**At Swyddogion Cyfrifyddu Cyrff Hyd Braich Llywodraeth Cymru a Chomisiynwyr yng Nghymru**

**DAO (Cymru) 03/19**

Annwyl Swyddogion Cyfrifyddu

Ym mis Mawrth eleni, cyhoeddodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ei Adroddiad "Craffu ar Gyfrifon 2017-18". Dyma argymhelliad cyntaf yr adroddiad hwnnw:

*"Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd y mesurau angenrheidiol i atal swyddogion rhag gwrthod rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus eto (yn gyfrinachol os oes angen) ar y sail na chânt wneud hynny yn ôl y gyfraith (ac yn amlwg yn groes i A4.12.11)."*

Dyma fy ymateb diweddar i'r Pwyllgor ynglŷn â'i argymhelliad:

*Fel y nodais yn fy ymateb cychwynnol, rwy'n rhannu barn y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru a'i chyrff hyd braich fod mor agored a thryloyw â phosibl yn eu cyfrifon a chyda'r Pwyllgor ei hun. Rwy'n ymwybodol iawn o'r cyfrifoldeb penodol arnaf i fel Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru, ac ar Swyddogion Cyfrifyddu penodedig eraill, i gynorthwyo'r Pwyllgor yn ei waith. Rwy'n credu bod ein trefniant yn ymwneud â manylion y gwarantau a roddwyd i gwmnïau sydd wedi'u cynnwys yn y nodyn rhwymedigaethau digwyddiadol, drwy fynd i'r afael â'r pryderon mewn sesiwn gaeedig, wedi gweithio yn dda. Rwy'n gobeithio bod hyn wedi bod o ddefnydd i'r Pwyllgor ac y gallwn barhau gyda threfniadau o'r fath yn y dyfodol lle bo hynny'n briodol.*

*Rwyf hefyd yn gwerthfawrogi pryderon y Pwyllgor ynglŷn â'r angen am ddatgeliad sydd mor llawn â phosibl o ran taliadau diswyddo. Byddaf yn ysgrifennu at holl gyrff hyd braich Llywodraeth Cymru i'w hatgoffa na ddylai trefniadau o'r fath fod yn rhai arferol, ac y dylid gwneud pob ymdrech i ddatgelu; os oes angen defnyddio cytundebau o'r fath o ganlyniad i gyngor cyfreithiol, y ceir cyngor cyfreithiol i sicrhau datgelu cyn belled ag y bo modd; ac, fel gyda rhwymedigaethau digwyddiadol, os oes rhwystrau i ddatgeliad cyhoeddus, y gallant gynnig sesiwn gaeedig i'r Pwyllgor i drafod cytundebau o'r fath, i alluogi'r Pwyllgor i arfer ei rôl graffu yn briodol. Byddaf yn anfon y llythyr hwn yn fuan, ac fe fyddaf yn darparu copi o'r llythyr i'r Pwyllgor.*

Yn fy rôl fel Prif Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Llywodraeth Cymru, rwyf bellach yn ysgrifennu at holl Swyddogion Cyfrifyddu ar gyfer yr holl Gyrff Hyd Braich, sydd wedi

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 03000 253289
Shan.Morgan@llyw.cymru
Gwefan • website:
www.llyw.cymru

cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru, er mwyn tynnu eich sylw at fy ymateb i'r Pwyllgor, yn enwedig yr hyn a ddywedais ynghylch datgelu mor llawn â phosibl mewn perthynas â chytundebau taliadau diswyddo.

Rhan o'r cyfrifoldeb yr ydym i gyd yn ei rannu fel Swyddogion Cyfrifyddu yw'r ddyletswydd i gynorthwyo'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i arfer ei rôl graffu'n effeithiol. Gallai hynny ddigwydd drwy ein hymddangosiadau os ydym yn cael ein galw, a hefyd drwy fod yn agored a thryloyw yn ein cyfrifon a'r dogfennau eraill lle'r ydym yn adrodd ar ein gweithgareddau. Mae hynny'n cynnwys cyfeiriadau at gytundebau taliadau diswyddo, yn enwedig os ydynt yn ymwneud ag unigolion uchel eu proffil, neu lle mae'r symiau o arian yn rhai sylweddol. Fel y nodwyd yn fy ymateb iddo, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol nad yw'n briodol derbyn tystiolaeth mewn sesiwn agored bob amser, ac mae'n fodlon ystyried sesiwn gaeedig os bydd yr amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny. Nid yw hwn yn ofyniad newydd ar Swyddogion Cyfrifyddu wrth gwrs. Byddwch yn gweld bod “Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru” eisoes yn ymdrin â'r materion hyn ym mharagraff 3.5.4 (rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus); paragraff 4.13 (Tryloywder) ac A4.12.11 (ymdrin â Thaliadau Diswyddo Arbennig, y mae'r Pwyllgor yn cyfeirio atynt yn ei Adroddiad).

Rhaid sicrhau eich bod yn gweithredu'n unol â'r llythyr hwn ac â'r darpariaethau yn “Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru” y cyfeirir ato uchod.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y llythyr hwn, dylech eu hanfon at yr Uned Cyrff Cyhoeddus yn y lle cyntaf.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr at Gadeirydd y pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac at Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Yn gywir,

Shan Morgan

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel **03000 253289**
Shan.Morgan@llyw.cymru
Gwefan • website:
www.llyw.cymru

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr N Ramsay
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

27 Medi 2019

Annwyl Mr Ramsay,

**CRAFFU AR GYFRIFON 2017-18 GAN Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS**

Ymhellach i'm hymateb i'r holl argymhellion yn yr adroddiad uchod a ddarparwyd ar 30 Ebrill 2019, a'm llythyr dyddiedig 16 Gorffennaf 2019 lle darparais ragor o wybodaeth am ddau o'r argymhellion. Cytunais i ddarparu ymateb i'r argymhellion eraill yr oedd angen gweithredu arnynt yn nes at y dyddiadau a gytunwyd.

O'r 18 o argymhellion, mae 13 wedi'u cwblhau'n llwyr, 4 yn mynd rhagddynt ac 1 yn ffurfio rhan o'r cylch cyfrifon blynyddol ac felly yn ymrwymiad parhaus. Dyma ddiweddariad cynhwysfawr i'r holl argymhellion:

**Argymhelliad 1**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd y mesurau angenrheidiol i atal swyddogion rhag gwrthod rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus eto (yn gyfrinachol os oes angen) ar y sail na chânt wneud hynny yn ôl y gyfraith (ac yn amlwg yn groes i A4.12.11 o Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru).**

**Ymateb Llywodraeth Cymru ar 30 Ebrill 2019**

Rwy'n rhannu pryderon y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru a'i chyrff hyd braich fod mor agored a thryloyw â phosibl yn eu cyfrifon a chyda'r Pwyllgor ei hun. O ran taliadau

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

diswyddo, fel popeth arall, nid yw tryloywder llwyr bob amser yn bosibl - fel y mae'r Pwyllgor yn cydnabod, weithiau mae angen ystyried materion diogelu data neu rwymedigaethau cyfreithiol. Ond rwy'n credu y gallwn wneud mwy i leddfu pryderon y Pwyllgor ac rwy'n ystyried sut y gellid gwneud hynny.

**Darparais y diweddariad canlynol yn fy llythyr dyddiedig 16 Gorffennaf 2019:**

Fel y nodais yn fy ymateb cychwynnol, rwy'n rhannu barn y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru a'i chyrff hyd braich fod mor agored a thryloyw â phosibl yn eu cyfrifon a chyda'r Pwyllgor ei hun. Rwy'n ymwybodol iawn o'r cyfrifoldeb penodol arnaf i fel Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru, ac ar Swyddogion Cyfrifyddu penodedig eraill, i gynorthwyo'r Pwyllgor yn ei waith. Rwy'n credu bod ein trefniant yn ymwneud â manylion y gwarantau a roddwyd i gwmnïau sydd wedi'u cynnwys yn y nodyn rhwymedigaethau digwyddiadol, drwy fynd i'r afael â'r pryderon mewn sesiwn gaeedig, wedi gweithio yn dda. Rwy'n gobeithio bod hyn wedi bod o ddefnydd i'r Pwyllgor ac y gallwn barhau gyda threfniadau o'r fath yn y dyfodol lle bo hynny'n briodol.

Rwyf hefyd yn gwerthfawrogi pryderon y Pwyllgor ynglŷn â'r angen am ddatgeliad sydd mor llawn â phosibl o ran taliadau diswyddo. Byddaf yn ysgrifennu at holl gyrff hyd braich Llywodraeth Cymru i'w hatgoffa na ddylai trefniadau o'r fath fod yn rhai arferol, ac y dylid gwneud pob ymdrech i ddatgelu; os oes angen defnyddio cytundebau o'r fath o ganlyniad i gyngor cyfreithiol, y ceir cyngor cyfreithiol i sicrhau datgelu cyn belled ag y bo modd; ac, fel gyda rhwymedigaethau digwyddiadol, os oes rhwystrau i ddatgeliad cyhoeddus, y gallant gynnig sesiwn gaeedig i'r Pwyllgor i drafod cytundebau o'r fath, i alluogi'r Pwyllgor i arfer ei rôl graffu yn briodol. Byddaf yn anfon y llythyr hwn yn fuan, ac fe fyddaf yn darparu copi o'r llythyr i'r Pwyllgor.

**Diweddariad mis Medi**

Anfonais y llythyr at y Swyddogion Cyfrifo ar 17 Medi, ac fe ddarparwyd copi i'r Pwyllgor ar 19 Medi.

Statws yr Argymhelliad: Wedi'i gwblhau'n llwyr

**Argymhelliad 11.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hamserlen ar gyfer cyhoeddi ei chyfrifon a'i hadroddiadau blynyddol yn flynyddol i helpu o ran tryloywder a dealltwriaeth o'r broses.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru ar 30 Ebrill 2019**

Mae manylion yr amserlen ar gyfer paratoi'r cyfrifon blynyddol wedi'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

https://llyw.cymru/cyfrifon-cyfunol-blynyddol-llywodraeth-cymru

Statws yr Argymhelliad: Wedi'i gwblhau'n llwyr. Bydd hyn yn gam gweithredu a fydd yn parhau yn y blynyddoedd nesaf.

**Argymhelliad 12.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor mewn perthynas â'i thrafodaethau â Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys y camau y cytunwyd arnynt i ymdrin â'r materion y daethpwyd ar eu traws wrth lunio ac archwilio cyfrifon 2017-18.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru ar 30 Ebrill 2019**

Roedd copi o'r wybodaeth a rennais ag Archwilydd Cenedlaethol Cymru ynglŷn â'r camau y cytunwyd arnynt i ymdrin â'r materion y daethpwyd ar eu traws wrth baratoi cyfrifon 2017-18 wedi'i amgáu yn atodiad B i Ymateb Adroddiad Llywodraeth Cymru.

Statws yr Argymhelliad: Wedi'i gwblhau'n llwyr. Mae adolygu'r broses gyfrifon am wersi a ddysgwyd yn rhan annatod o waith cynllunio ar gyfer paratoi cyfrifon blynyddoedd olynol.

**Argymhelliad 13.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro, i'r Pwyllgor, yr adnoddau sydd ganddi ar gyfer y broses, yn ogystal ag esbonio sut y mae'n sicrhau bod ganddi ddigon o sgiliau a galluoedd i ddarparu ei chyfrifon blynyddol.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru ar 30 Ebrill 2019**

Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn atodiad B i Ymateb Adroddiad Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor yn cynnwys manylion pellach am yr adnoddau ychwanegol sydd ar gael bellach o fewn y tîm sy'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon craidd a chyfunol, ac felly'r hyn a gyflwynir i Gyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Mae'r holl staff yn dal y cymwysterau priodol: mae gan y staff SEO, Gradd 7 a'r uwch weision sifil gymhwyster proffesiynol perthnasol mewn cyfrifeg ac mae nifer o'r staff wedi bod yn gweithio o'r blaen mewn tîm cyfrifon canolog. Rwyf wedi dyblu nifer y staff cymwysedig/rhannol-gymwysedig sy'n paratoi cyfrifon 2018-19, o gymharu'r sefyllfa ag un y llynedd.

Statws yr Argymhelliad: Wedi'i gwblhau'n llwyr. Mae'r adnoddau a'r sgil angenrheidiol i gynhyrchu'r cyfrifon yn cael eu hadolygu fel rhan o broses gynllunio'r cyfrifon bob blwyddyn.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Argymhelliad 14.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth ariannol fanylach a gwybodaeth am berfformiad megis dadansoddiadau o wariant blynyddol ym mhob Prif Grŵp Gwariant a sut y mae'r rhaglenni hyn yn cyflawni yn erbyn canlyniadau arfaethedig. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth i alluogi'r cyhoedd i weld sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a hefyd adroddiadau am ei pherfformiad yn ystod y flwyddyn i gynyddu tryloywder ac atebolrwydd.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru ar 30 Ebrill 2019**

Mae'r adroddiad alldro blynyddol a roddwyd i'r Pwyllgor Cyllid ar ôl y cyfrifon blynyddol yn rhoi manylion cynhwysfawr ynghylch sut mae alldro Llywodraeth Cymru yn cymharu â'r gyllideb. Mae'r datganiad o alldro adnoddau, sy'n ofyniad gorfodol ar gyfer yr holl gyfrifon blynyddol, yn rhoi manylion y gwariant yn erbyn pob un o'r prif grwpiau gwariant. Yn 2018-19 bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno tabl pellach sy'n cynnwys y 30 maes gwariant mwyaf. Rhoddir sylw i'r mater o adrodd ar berfformiad o dan argymhelliad 17.

**Diweddariad mis Medi**

Yn ystod y broses o baratoi'r Cyfrifon daeth yn amlwg mai ychydig iawn o wybodaeth ychwanegol ddefnyddiol fyddai defnyddwyr y Cyfrifon yn ei chael os byddem yn gwneud dim mwy na chasglu'r 30 maes gwariant mwyaf mewn tabl, a fyddai'n cynnwys costau cyfrifo nad yw'n arian parod yn ogystal â gwariant ychwanegol. Rydym wedi cynnwys dadansoddiad o'r 5 prif faes gwariant sy'n cwmpasu dwy ran o dair o'r alldro gwariant net. Mae'r adroddiad alldro blynyddol a roddir i'r Pwyllgor Cyllid yn darparu'r cyd-destun ar gyfer yr alldro mewn ffordd fwy ystyrlon na thabl ychwanegol yn y Cyfrifon.

Caiff yr adroddiad alldro ei baratoi pan fydd y Cyfrifon wedi'u harchwilio i ddarparu sicrwydd o ran adrodd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd os bydd modd copïo'r adroddiad alldro yn y dyfodol i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar yr un pryd ag y caiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid.

Statws yr Argymhelliad: Wedi'i gwblhau'n llwyr

**Argymhelliad 15.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi mesurau ar waith i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg i gyhoeddi ei chyfrifon yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd.**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Ymateb Llywodraeth Cymru ar 30 Ebrill 2019**

Caiff y fersiynau Cymraeg a Saesneg o gyfrifon 2018-19 eu cyhoeddi yr un pryd. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn pennu bod rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru osod y cyfrifon yn y Cynulliad. Yn y gorffennol, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gosod y fersiwn Saesneg yn unig gan nad yw'r fersiwn Gymraeg yn destun archwiliad. Er mwyn osgoi unrhyw ddryswch posibl ynglŷn â'r dyddiadau cyhoeddi, byddaf yn awgrymu wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru ein bod yn anfon copïau o'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r cyfrifon at ei swyddogion a'u bod hwythau wedyn yn cyflwyno'r ddwy fersiwn i'r Cynulliad.

**Diweddariad mis Medi**

Fe gafodd fersiynau Cymraeg a Saesneg Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2018-19 eu gosod gyda'i gilydd ar 27 Awst 2019 a'u cyhoeddi gyda'i gilydd ar wefan Llywodraeth Cymru ar 28 Awst 2019.

Statws yr Argymhelliad: Wedi'i gwblhau'n llwyr.

**Argymhelliad 16**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr amserlen ar gyfer mynd â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol i'r Bwrdd ac yn rhannu'r canlyniad, yn ogystal â phapurau a drafodir gan y Bwrdd.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru ar 30 Ebrill 2019**

Rwyf wedi comisiynu papur i'w gyflwyno i Fwrdd Llywodraeth Cymru yng nghyfarfod mis Mai er mwyn cynnal trafodaeth yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf ynglŷn â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol. Rwyf wedi gofyn am i'r papur ystyried y datblygiadau ers i'r papur gwreiddiol, y dyfynnir ohono yn adroddiad y Pwyllgor, gael ei lunio yn 2017. Bydd y papur hefyd yn ystyried y cydbwysedd rhwng polisi uchelgeisiol yn seiliedig ar darged Strategaeth y Gymraeg ar un llaw, a materion ymarferol ar y llall. Yn amlwg mae hwn yn fater sensitif i'r staff, a rhaid inni ystyried yn ofalus sut y gallai unrhyw newidiadau effeithio ar y gweithlu. Wrth baratoi'r papur rydym hefyd wedi bod yn ystyried yr arferion gorau mewn sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac mae fy swyddogion wedi cyfarfod gyda Phrif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu De Cymru, Jeremy Vaughan, a hefyd Gomisiwn y Cynulliad, Cyngor Rhondda Cynon Taf a Chyngor Ynys Môn, i drafod sut maent yn mynd ati i sicrhau capasiti o ran sgiliau Cymraeg yn y gweithlu ac i hwyluso a hyrwyddo mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn eu sefydliadau. Nid yw papurau polisi o'r natur hwn fel arfer yn cael eu cyhoeddi, ond yn dilyn trafodaeth ar y materion hyn gan y Bwrdd, bydd y papur, a fydd yn cynnwys barn y Bwrdd, yn cael ei gyflwyno i'w ystyried gan y Prif Weinidog a Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol. Byddaf yn rhannu

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

canlyniad y broses ystyried hon gyda'r Pwyllgor, ynghyd ag unrhyw bapurau perthnasol. Rwy'n gobeithio medru gwneud hyn erbyn mis Medi.

**Diweddariad mis Medi**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, cyhoeddais amserlen arfaethedig ar gyfer datblygu polisi cynhwysfawr ac uchelgeisiol i ddatblygu'r defnydd o'r iaith o fewn Llywodraeth Cymru. Yr amcan tymor byr yw i Lywodraeth Cymru fod yn esiampl ymddygiad o ran ei defnydd mewnol o'r iaith ac yn y tymor hir, erbyn 2050, bydd Llywodraeth Cymru yn sefydliad lle gall yr holl staff ddeall Cymraeg, lle bo modd gweithio'n ddwyieithog a bod cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r iaith. Mae'n weledigaeth o fod yn esiampl fel sefydliad yn sicrhau bod gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan lawn yn helpu'r Prif Weinidog i gyflawni ei uchelgais o weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, fel y gwelir yn strategaeth y Gymraeg, *Cymraeg 2050; miliwn o siaradwyr Cymraeg.*

Mae natur hirdymor y gwaith hwn yn golygu y bydd y polisi yn esblygu ac yn datblygu dros amser; gan adlewyrchu'r ffordd raddol y bydd yn cael ei roi ar waith. Rwy'n credu mai'r ffordd orau o gyflawni hyn fydd dros gylch treigl pum mlynedd o gytuno ar gamau gweithredu, eu rhoi ar waith a'u hadolygu. Byddwn yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar hwyluso, annog a chymell. Bydd angen cynyddu effaith y polisi dros amser er mwyn cyrraedd y nod a bydd angen cynllunio hyn yn ofalus.

Dros yr haf bu pum ffrwd waith yn mynd rhagddynt, a'u tasg yw ystyried materion penodol a fydd yn cyfrannu at bum mlynedd gyntaf y polisi, ond hefyd y trywydd tuag at 2050. Mae Ochr yr Undebau Llafur yn rhan o'r 5 ffrwd waith. Y pum ffrwd waith yw:

a. Cynllunio'r gweithlu, recriwtio a phrif ffrydio'r iaith yn fewnol
b. Hyfforddiant;
c. Technoleg ac effeithiolrwydd
d. Cyfathrebu, arferion mewnol a gwyddor ymddygiad
e. Ystadegau a ffactorau allanol.

Mae gwaith yn mynd rhagddo nawr i gadarnhau'r polisi, y cerrig milltir a'r rhaglen waith gyntaf, gyda'r nod o lansio rhaglen waith a pholisi newydd ym mis Tachwedd 2019, ar ôl ymgynghoriad ffurfiol ag Ochr yr Undebau Llafur.

Statws yr Argymhelliad: Ar waith - anelu i'w gwblhau ddiwedd mis Tachwedd 2019.

**Argymhelliad 17.**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i gydymffurfio â'r arfer gorau ym maes cyflwyno adroddiadau ariannol drwy gynnwys gwybodaeth am ei pherfformiad a mabwysiadu'r arfer hwn wrth lunio adroddiadau blynyddol a chyfrifon y flwyddyn nesaf, cyn cyhoeddi rhagor o ganllawiau i gyrff a noddir ganddi. Dylai'r adroddiadau blynyddol a'r cyfrifon, o leiaf, nodi sut y mae'r arian**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**wedi'i wario a'r hyn y mae wedi'i gyflawni, gan gyfeirio at y targedau a bennwyd gan Weinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r perfformiad yn eu herbyn. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad o wariant yn erbyn nodau "Ffyniant i Bawb" (a'r rhaglenni dilynol) a thargedau sefydliadol eraill yn y cyfrifon, yn gyson â'r gwariant yr adroddir arno yn y datganiadau ariannol.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru ar 30 Ebrill 2019**

Rwyf wedi gofyn i Jeff Farrar yn ei swyddogaeth fel Cyfarwyddwr Anweithredol ar Fwrdd Llywodraeth Cymru arwain grŵp gorchwyl a gorffen i gynghori ar ddull addas o baratoi cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol gwell a systematig ar gyfer Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd iddo edrych ar y deunydd presennol ac ystyried pa fesurau ychwanegol y byddai'n ddefnyddiol inni eu mabwysiadu i'n galluogi i fonitro cynnydd a chyflawniad yn fwy effeithiol. Cylch gorchwyl y grŵp yw ystyried a gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Parhaol ar gyfres newydd o wybodaeth rheoli perfformiad a Dangosyddion Perfformiad Allweddol mewn perthynas â'i chyfrifoldebau dros redeg Llywodraeth Cymru.

Mae Mr Farrar wedi cychwyn ar ei waith, ac rwyf wedi gofyn am adroddiad erbyn diwedd mis Mehefin. Rwy'n credu ei bod yn annhebygol y bydd llawer o'r gwaith hwn yn barod mewn pryd i ymddangos yn ein cyfrifon arfaethedig, ond byddaf yn medru rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y cynnydd yn yr hydref. Mae'r gwaith hwn yn ymwneud â pherfformiad gweithredol Llywodraeth Cymru, a'r meysydd y mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn gyfrifol amdanynt, yn hytrach na'r Gweinidogion. Fodd bynnag, byddaf yn trafod y goblygiadau ehangach posibl sydd i'r argymhelliad penodol hwn gyda'r Prif Weinidog a byddaf yn sicr yn tynnu ei sylw at y pryderon sydd wedi'u mynegi gan y Pwyllgor.

**Diweddariad mis Medi**

Mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn symud ymlaen gydag argymhellion sy'n codi o waith Mr Farrar a'r grŵp gorchwyl a gorffen oedd yn ei gefnogi, gan ddatblygu fframwaith rheoli cynhwysfawr. Bydd y fframwaith hwnnw yn seiliedig ar Fynegai Effeithiolrwydd Gwasanaethau Sifil Rhyngwladol, yn unol â chynnig Mr Farrar. Bydd hyn yn helpu i wella a chynnal perfformiad ac effeithlonrwydd y sefydliad. Bydd rhai dangosyddion perfformiad allweddol newydd yn cael eu cynnwys yn Adroddiad a Chyfrifon 2019-2020. Bydd eraill yn cymryd mwy o amser gan y bydd angen casglu a dadansoddi data newydd.

Statws yr Argymhelliad: Yn y broses o'i roi ar waith

**Argymhelliad 18.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud yn glir y gofynion y mae'n anelu at gydymffurfio â hwy wrth lunio ei hadroddiadau blynyddol a'i chyfrifon. Dylai hefyd fod yn glir ynghylch gofynion Cymru ar gyfer Adroddiadau**

**Blynyddol a sicrhau bod pob corff yn cydymffurfio â'r canllawiau hyn, gan gynnwys hi ei hun. Bydd hyn yn helpu i ddarparu gwybodaeth ddigonol a phriodol gan alluogi gwaith craffu effeithiol.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru ar 30 Ebrill 2019**

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfarwyddyd cyfrifon i'w chyrff cyhoeddus, sy'n rhoi manylion ynghylch sut y dylid paratoi cyfrifon blynyddol a phwy y gallant siarad â hwy os oes unrhyw gwestiynau. Mae hefyd yn gweithio'n agos gyda'i is-gwmnïau i sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir i gynorthwyo â pharatoi'r cyfrifon cyfunol yn gadarn. Mae'r holl wybodaeth a gyflwynir i Lywodraeth Cymru i'w chyfuno yn y cyfrifon yn cael eu harchwilio'n annibynnol gan Swyddfa Archwilio Cymru neu gan un o'r cwmnïau cyfrifwyr mawr. Y brif ffynhonnell o ganllawiau i Lywodraeth Cymru a'r holl sefydliadau eraill yw'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) a gyhoeddir ac a diweddarir gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

Mae'r FReM yn amlinellu ffurf a chynnwys adroddiadau a chyfrifon blynyddol y mae Llywodraeth Cymru yn ei gweld yn lefel briodol o adrodd ar gyfer Adroddiad Perfformiad pob sefydliad yng Nghymru, gan ystyried deddfwriaeth benodol yng Nghymru.

Cynghorir Trysorlys EM ar faterion yn ymwneud â safonau cyfrifyddu gan y Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol (FRAB). Mae gan Lywodraeth Cymru sedd barhaol ar yr FRAB a chaiff ei chynrychioli gan y Cyfarwyddwr Cyllid.

Statws yr Argymhelliad: Mynd rhagddo fel rhan o gylch rheolaidd Adroddiadau Blynyddol

**Argymhelliad 19.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pa wybodaeth y gellir ei chynnwys yn ei chyfrifon er mwyn hyrwyddo tryloywder mewn perthynas â'r cymorth busnes a ddarperir heb ddigalonni darpar fuddsoddwyr.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru ar 30 Ebrill 2019**

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r holl wybodaeth y gall ei wneud heb dorri cytundebau ynghylch cyfrinachedd masnachol. Adolygir yr wybodaeth hon bob blwyddyn i benderfynu a yw'n parhau'n sensitif yn fasnachol. Yn dilyn cyhoeddi cyfrifon 2017-18, gofynnodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am sesiwn gaeedig i drafod unrhyw wybodaeth na ellid ei chyhoeddi, a byddwn i'n awgrymu y byddai cyfarfod tebyg yn dilyn cyhoeddi'r cyfrifon eleni yn ffordd briodol o sicrhau tryloywder a hwyluso craffu ar y penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cymru.

Statws yr Argymhelliad: Wedi'i gwblhau'n llwyr

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Argymhelliad 20.**

**Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cysylltu â’i chymheiriaid yn Llywodraeth yr Alban i wella ei dealltwriaeth o rinweddau posibl cyflwyno Cyfrifon Llywodraeth Gyfan Cymru ac yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru ar 30 Ebrill 2019**

Byddaf yn rhoi diweddariad i'r pwyllgor pan fyddwn yn cyfarfod yn yr hydref. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes achos cryf wedi’i gyflwyno i Lywodraeth Cymru dros baratoi cyfrifon Cymru Gyfan.

Statws yr Argymhelliad: Wedi'i gwblhau'n llwyr ar sail trafodaethau a gafwyd gyda Llywodraeth yr Alban.

**Argymhelliad 21.**

**Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu â’r Pwyllgor ei chynllun gweithredu ar gyfer lleihau’r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru ar 30 Ebrill 2019**

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chwarae Teg (yng ngwanwyn 2019) i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Bydd hwn yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor unwaith y bydd wedi'i gwblhau a’i gymeradwyo.

**Diweddariad mis Medi**

Mae'n systemau cyflog yn deg, ond mae bwlch cyflog yn deillio o ganrannau'r dynion a'r menywod sy'n gweithio ar wahanol raddau, a'r nifer llawer uwch o fenywod sy'n gweithio'n rhan amser. Yn ddiweddar fe wnaethom gymryd rhan ym mhroses meincnodi Gwobrau Cyflogwr Chwarae Teg, gan gyfarfod Chwarae Teg fis Awst 2019 i drafod eu canfyddiadau a'u hargymhellion. Byddwn hefyd yn defnyddio argymhellion yn ymwneud â chyflogaeth o adroddiad Ail Gam yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol i arwain ein gwaith. Ein dull gweithredu, yr oeddem yn falch iawn o'i weld yn cael ei adlewyrchu ym meincnodi Chwarae Teg, yw canolbwyntio ar faterion ehangach sy'n effeithio ar fenywod (a staff eraill â nodweddion gwarchodedig), ac a allai effeithio ar ansawdd profiadau, cynnydd ac o ganlyniad y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Byddwn yn ymwreiddio'r camau gweithredu o ganlyniad yn ein Cynllun Gweithredu newydd ar Amrywiaeth a Chynhwysiant, a fydd yn targedu ein hymdrechion i sicrhau cydraddoldeb yn y gweithle yn y cyfnod o fis Ebrill 2020 ymlaen. Mae Chwarae Teg yn cefnogi integreiddio camau gweithredu ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ein Cynllun Amrywiaeth a Chynhwysiant yn hytrach na datblygu cynllun gweithredu unigol.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Statws yr Argymhelliad: Ar waith - anelu i'w gwblhau Ebrill 2020

**Argymhelliad 22.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell, er mwyn helpu o ran tryloywder a hwyluso gwaith craffu, fod Llywodraeth Cymru yn ystyried a ellid cynnwys rhagor o wybodaeth yn ei chyfrifon yn y dyfodol i esbonio diben pecynnau ymadael a/neu gynlluniau diswyddo.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru ar 30 Ebrill 2019**

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am becynnau ymadael a chynlluniau diswyddo yng nghyfrifon y dyfodol. Byddwn hefyd yn ysgrifennu at ein cyrff hyd braich i bwysleisio pwysigrwydd iddynt hwy wneud hynny.

**Diweddariad mis Medi**

Anfonais y llythyr at y Swyddogion Cyfrifo ar 17 Medi, ac fe ddarparwyd copi i'r Pwyllgor ar 19 Medi.

Roedd Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn 2018-19 ar bwrpas y Cynllun Ymadael Gwirfoddol.

Statws yr Argymhelliad: Wedi'i gwblhau'n llwyr

**Argymhelliad 23.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth yn ei hadroddiadau blynyddol a'i chyfrifon blynyddol am y gweithgareddau effeithlonrwydd ar draws ei sefydliad. Dylai hyn gynnwys ei halldro yn erbyn y targedau a bennwyd, gydag esboniad lle nad yw nodau perfformiad wedi'u cyrraedd.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru ar 30 Ebrill 2019**

Bydd y gwaith a wneir gan Jeff Farrar yn sail i benderfynu ar y ffordd orau y gall Llywodraeth Cymru fynd ati i greu cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol a fydd yn dangos sut mae'n cyflawni camau effeithlonrwydd ar draws y sefydliad. Rydym hefyd yn ystyried sut y byddwn yn mynd ati i sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer eu mesur ac adrodd arnynt. Bydd modd i mi roi diweddariad i'r Pwyllgor yn yr hydref.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Diweddariad mis Medi**

Cyfeiriwch at y diweddariad a ddarparwyd yn Argymhelliad 17. Mae diweddariad am waith y Bwrdd Gwella Effeithlonrwydd wedi'i gynnwys yn Atodiad B.

Statws yr Argymhelliad: Yn y broses o'i roi ar waith

**Argymhelliad 24**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu, cyn i'r Pwyllgor graffu ar ei chyfrifon ar gyfer 2018-19, ddiweddariad mewn perthynas â gwaith y Bwrdd Gwella Effeithlonrwydd ac, yn benodol, y camau a weithredwyd o ganlyniad i'r adolygiad annibynnol o'i wasanaethau corfforaethol.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru ar 30 Ebrill 2019**

Byddaf yn ysgrifennu at aelodau'r pwyllgor ynglŷn â'r Bwrdd Gwella Effeithlonrwydd cyn y broses o graffu ar gyfrifon 2018-19, yn arbennig am y camau a roddwyd ar waith o ganlyniad i'r adolygiad annibynnol o'i wasanaethau corfforaethol.

**Diweddariad mis Medi**

Mae diweddariad am waith y Bwrdd Gwella Effeithlonrwydd wedi'i gynnwys yn Atodiad B.

Statws yr Argymhelliad: Wedi'i gwblhau'n llwyr

**Argymhelliad 25.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn esbonio'r rhesymau dros newid trywydd a sut y mae "menter Diogelu'r Dyfodol" yn wahanol i "Parod at y Dyfodol", y cynllun a gyflwynwyd gan y cyn Ysgrifennydd Parhaol. Dylai hyn bennu sut y mae'r rhaglen newydd yn gweithio er mwyn gwella effeithlonrwydd y sefydliad, yn ogystal â datblygu ei gapasiti a'i ystwythder.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru ar 30 Ebrill 2019**

Menter gwella sefydliadol yw Diogelu'r Dyfodol a'i nod yw sicrhau bod gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru yn barod i wynebu'r heriau cymhleth sydd o'i flaen wrth gynorthwyo'r Gweinidogion i gyflawni'r rhaglen bresennol, gan adeiladu gwasanaeth sifil hyderus, medrus a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae'n adeiladu ar waith ardderchog yr Ysgrifennydd Parhaol blaenorol drwy ei raglen newid "Paratoi at y Dyfodol" ac yn rhoi sylw i'r hyn a ddysgwyd drwy'r rhaglen honno.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Roedd “Paratoi at y Dyfodol” yn edrych yn bennaf ar yr addasiadau yr oedd angen i Lywodraeth Cymru eu gwneud o ran trefniadaeth a strwythur. Mae Diogelu’r Dyfodol yn newid y pwyslais ac yn canolbwyntio ar newid sy’n ymwneud â phobl a’r ffordd yr ydym yn mynd ati mewn modd integredig, ar draws y system gyfan, i roi’r rhaglen newid ymddygiad ar waith.

Yn ogystal â chyflwyno set newydd o ddisgwyliadau ac ymddygiadau sy’n cyfleu’r ffyrdd o weithio yr ydym yn eu hannog a’u gwerthfawrogi, rydym wedi gwneud newidiadau sylweddol i’n systemau rheoli perfformiad, ein systemau dyrchafu, ein hyfforddiant arweinyddiaeth a’n rhaglen ehangach o feithrin gallu, er mwyn annog a gwreiddio’r disgwyliadau hyn ar draws y sefydliad.

Rhoddwyd rhagor o wybodaeth yn Atodiad C Ymateb Adroddiad Llywodraeth Cymru i'r pwyllgor.

Statws yr Argymhelliad: Wedi'i gwblhau'n llwyr

**Argymhelliad 26.**

**Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro i’r Pwyllgor ei safbwynt o ran mabwysiadu Proffiliau Llwyddiant Gwasanaeth Sifil y DU a sut y bydd y rhain yn gweithio yng nghyd-destun Cymru, gan gynnwys y berthynas - neu fel arall - rhwng y dull gweithredu hwn a safonau a gwerthoedd ar gyfer hybu mewnol ar raddfeydd porth a ddatblygir gyda mewnbwn Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol a pha fframwaith sy’n cael blaenoriaeth.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru ar 30 Ebrill 2019**

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mabwysiadu fframwaith recriwtio Proffiliau Llwyddiant Gwasanaeth Sifil y DU yn ystod hydref 2019 (yn amodol ar ymgysylltu ac ymgynghori ag undebau llafur a rhwydweithiau staff o fewn Llywodraeth Cymru). Mae’r Porth Asesu a Datblygu ar gyfer dyrchafiadau mewnol wedi treialu nifer o elfennau o’r Proffiliau Llwyddiant, gan gynnwys cyfweld yn seiliedig ar gryfderau. Cafodd yr ymddygiadau a'r cryfderau a aseswyd yn y Porth eu dewis yn benodol i ategu’r safonau a’r gwerthoedd a ddatblygwyd gyda chyfraniad gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Diweddariad mis Medi**

Mae gwaith wedi cychwyn i gyflwyno Proffiliau Llwyddiant o fewn Llywodraeth Cymru drwy ein hymgyrchoedd recriwtio corfforaethol, megis ein hymgyrch brentisiaethau a phyrth dyrchafiad.

Byddwn yn parhau i gyflwyno'r fframwaith ar draws ymgyrchoedd corfforaethol dros y flwyddyn nesaf cyn ystyried y ffordd orau o roi'r fframwaith ar waith ar draws y sefydliad.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Bydd profiad a thystiolaeth o ddefnyddio ein Proffiliau Cryfderau yn ein hymgyrchoedd corfforaethol yn dylanwadu ar ein ffordd o lunio'n prosesau asesu ar gyfer rolau is na Gradd 7 a recriwtio arbenigol. Fodd bynnag, bydd yr holl weithgarwch darparu adnoddau yn seiliedig ar y Disgwyliadau a ddatblygwyd i adlewyrchu anghenion ein cyd-destun datganoledig a ffyrdd o weithio Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r Proffiliau Cryfderau yn rhoi cyfle i ni gyfuno cryfderau, sgiliau a chymwyseddau yn ein dull o asesu, gyda chyfres o Ddisgwyliadau yn sail i'r dull hwnnw yn mynegi ymddygiadau a ffyrdd o weithio yr ydym wedi ymrwymo iddynt. Rydym yn gweld y ddau fframwaith yn ategu ei gilydd o ran ein dull cyffredinol o asesu cydweithwyr ar gyfer dyrchafiad.

Statws yr Argymhelliad: Wedi'i gwblhau'n llwyr

**Argymhelliad 27.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell, er mwyn sicrhau ei bod yn gallu darparu goruchwyliaeth annibynnol a her i'r Weithrediaeth ac osgoi gwrthdaro buddiannau (gwirioneddol neu ganfyddedig), na ddylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ei Chyfarwyddwyr Anweithredol i wneud gwaith y tu hwnt i gwmpas eu rolau anweithredol.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru ar 30 Ebrill 2019**

Yn y dyfodol ni fydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu ei Chyfarwyddwyr Anweithredol i ymgymryd â rolau eraill ar gyfer Llywodraeth Cymru nad ydynt yn rhan o'u swyddogaeth fel Cyfarwyddwyr Anweithredol. Yn ogystal, cyn i Lywodraeth Cymru fodloni i'w Chyfarwyddwyr Anweithredol ymgymryd â rolau ar gyfer cyrff hyd braich, byddai gofyn iddi fod yn argyhoeddedig bod y posibilrwydd o wrthdaro buddiannau yn fach iawn; yn hyderus y gellid rheoli'r gwrthdaro hwnnw yn briodol; a bod budd cyhoeddus clir yn sgil y ffaith fod y Cyfarwyddwr Anweithredol yn ymgymryd â rôl ychwanegol gyda chorff hyd braich.

Statws yr Argymhelliad: Wedi'i gwblhau'n llwyr

**Argymhelliad 28.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn esbonio'n llawn sut y bydd yn cael sicrwydd llawn, wedi'i ddogfennu, am y materion yr adroddwyd arnynt o'r blaen drwy'r weithdrefn galw i mewn'.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru ar 30 Ebrill 2019**

Rydym yn dal i weithio ar fanylion terfynol ein dull gweithredu newydd, a byddaf yn ysgrifennu eto at y Pwyllgor ar ôl inni gwblhau ein trafodaethau.

**Darparais y diweddariad canlynol yn fy llythyr dyddiedig 16 Gorffennaf:**

a) Ar gyfer 2019/20 rydym wedi cytuno ar drefniadau pontio gyda'r Prif Weinidog i roi sicrwydd iddo ef ac i'r Ysgrifennydd Parhaol nad yw dileu'r gweithdrefnau galw i mewn gyda chyrff hyd braich yn arwain at risg annerbyniol i Lywodraeth Cymru nac i’r gwaith o gyflawni Rhaglen y Llywodraeth yn effeithiol. Trefniadau pontio yw'r rhain i roi data llinell sylfaen i Lywodraeth Cymru i'w ddefnyddio i asesu cyfanswm y materion lle mae cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo, ac i ystyried dull gweithredu pob corff o ran y trefniadau newydd.

b) Bwriad y trefniadau pontio yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru ynglŷn â sut y mae'r broses newydd yn gweithio, yn hytrach na pharhau â dull cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Bydd gan Lywodraeth Cymru bwerau o hyd i ymyrryd mewn penderfyniadau os oes ganddynt bryderon.

c) Rydym wedi cytuno gyda'r Prif Weinidog y byddwn eleni yn gweithredu trefniadau **Cymeradwyo**, **Rhaghysbysu** a **Hysbysu** ar gyfer penderfyniadau a oedd yn destun y trefniadau galw i mewn hyn yn flaenorol. Nodir y rhain yn Atodiad A y llythyr hwn.

d) Bydd Swyddogion Cyfrifyddu mewn Cyrff Cyhoeddus yn gyfan gwbl atebol am y penderfyniadau sydd angen rhaghysbysiad a hysbysiad i Lywodraeth Cymru. Gall swyddogion yn Llywodraeth Cymru roi cyngor ar faterion y mae wedi cael gwybod amdanynt, ond yn y pen draw y Prif Weithredwr fydd yn gwneud y penderfyniad. Yr eithriad i hyn fydd y penderfyniadau sydd angen eu cymeradwyo, os yw Llywodraeth Cymru yn gyfrifol ac yn atebol am y penderfyniad.

Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn parhau i ymgysylltu ag Arweinwyr Cyhoeddus, Noddwyr a rhanddeiliaid eraill e.e. Swyddfa Archwilio Cymru, wrth i ni fireinio ein dull gweithredu, a bydd yn parhau i wneud hynny drwy gydol y trefniadau pontio. Bydd yr Uned Cyrff Cyhoeddus yn paratoi adroddiad gwersi a ddysgwyd ar ddiwedd mis Rhagfyr 2019 er mwyn i mi lunio barn ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau newydd hyn.  Byddaf yn rhannu'r adroddiad a'm casgliadau gyda'r Pwyllgor.

**Diweddariad mis Medi**

Rydym wedi mireinio'r trefniadau galw i mewn ymhellach er mwyn egluro'r weithdrefn i'w dilyn os bydd corff cyhoeddus yn dewis diystyru cyngor Llywodraeth Cymru ar fater pan fo rhaghysbysu yn ofynnol. Mae Atodiad A wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau hynny a hysbyswyd i Gyrff Cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2019.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Statws yr Argymhelliad: Wedi'i gwblhau'n llwyr

Yn gywir,

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

***Atodiad A***

**Trefniadau Galw i Mewn ar gyfer Cyrff Cyhoeddus - Trefniadau Sicrwydd Cymeradwyo, Rhaghysbysu a Hysbysu**

***Tabl A         Cymeradwyo***

| **Penderfyniad** | **Cymeradwyo** |
|---|---|
| Penodi Prif Weithredwr | Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol a Gweinidog |
| Cynllun Busnes | Gweinidog |
| I Gyrff Cyhoeddus a neilltuir fel sefydliadau Llywodraeth ganolog at ddibenion cyfrifyddu:<br>a) Arian parod wedi'i drosglwyddo mewn blwyddyn yn fwy na 4% o gyfanswm y cymorth grant/arian parod a ddyfarnwyd<br>b) Arian parod wedi'i drosglwyddo ar ddiwedd blwyddyn yn fwy na 2% o gyfanswm y cymorth grant/arian parod a ddyfarnwyd<br>c) Sefydlu is-gwmnïau/mentrau ar y cyd o'r newydd<br>d) Unrhyw fenthyca, rhoi benthyg, gwarant, indemniad neu fuddsoddiad sy'n ymwneud ag arian cyhoeddus.<br>e) Cadw derbynebau am gyfnod hirach nag a bennir yn y llythyr cyllido.<br><br>Unrhyw benderfyniad a nodwyd mewn deddfwriaeth sydd angen caniatâd Gweinidogion Cymru e.e. mae Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidog gymeradwyo cynllun corfforaethol blynyddol. | Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru<br><br>Gweinidog |
| Trefniadau dileu swydd yn seiliedig ar Gynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil (cyrff gyda Phensiwn y Gwasanaeth Sifil) | Pennaeth Cyflog a Chydnabyddiaeth Ariannol a fydd yn ceisio cyngor y Gweinidog fel y bo'n briodol. |

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

*Tabl B* *Trefniadau Rhaghysbysu*

Dylai Prif Weithredwyr roi gwybod i'w noddwr am unrhyw benderfyniadau arfaethedig a ddaw dan y categorïau canlynol wrth iddynt godi. Dylai'r penderfyniadau hyn hefyd fod yn rhan o drafodaeth 'archwilio' yn y cyfarfodydd monitro chwarterol:

| Penderfyniad | Cam Gweithredu Rhaghysbysu | Cyngor Pellach |
|---|---|---|
| Cynigion newydd, dadleuol neu ddwyochrog yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru gan gynnwys, ymysg eraill, gynigion:<br><br>Nad ydynt yn rai safonol i'r sector<br><br>Sy'n sensitif yn wleidyddol a/neu yn debyg o ddenu sylw negyddol yn y cyfryngau<br><br>A allai arwain at ganlyniadau digroeso i'r sefydliad a/neu y sector cyhoeddus ehangach<br><br>A allai osod cynsail ar gyfer y sector a'r sector cyhoeddus ehangach | Y noddwr, mewn cydweithrediad â thimau polisi priodol i baratoi cyngor i drafod gyda'r Uned Cyrff Cyhoeddus a fydd yn ceisio cyngor ysgrifenedig y Ganolfan Rhagoriaeth Llywodraethu Corfforaethol ac unrhyw Gorff arall ag arbenigedd ar y mater. | Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol a Gweinidog, fel y bo'n briodol |
| Unrhyw gamau sy'n cael eu hystyried gan y Bwrdd a fyddai yn mynd yn erbyn egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gweinyddiaeth economaidd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y mae'r Prif Swyddog Gweithredol wedi cynghori yn eu herbyn. | Noddwyr i baratoi cyngor i'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol. | Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol |



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

| | | |
|---|---|---|
| Newid polisi neu ymarfer sy'n arwain at oblygiadau ariannol eang | Y noddwr i baratoi cyngor i'r Pennaeth Rheoli Cyllidebol ac anfon copi at yr Uned Cyrff Cyhoeddus | Gweinidog, fel y bo'n briodol |
| Tâl cydnabyddiaeth staff a thelerau ac amodau | Y noddwr i gyflwyno'r cylch cyflog arfaethedig i'r Pennaeth Cyflog a Chydnabyddiaeth Ariannol, yr Uned Cyrff Cyhoeddus ar:<br>• Newidiadau y tu hwnt i egwyddorion cyflog sector cyhoeddus Llywodraeth Cymru<br>• Newidiadau i gynlluniau sefydliadau sy'n debygol o arwain at ddiswyddiadau | Mae angen cymeradwyaeth y Gweinidog ar gyfer newidiadau nad ydynt yn dod dan egwyddorion tâl Llywodraeth Cymru |
| Unrhyw beth a allai effeithio ar lefel yr adnoddau angenrheidiol i'r dyfodol, ee pwysau posib ar y gyllideb neu danwariant | Y noddwr i ystyried | Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru, fel y bo'n briodol |

***Tabl C Trefniadau Hysbysu***

Yn ystod y cyfnod pontio, dylai Prif Weithredwyr roi gwybod i noddwyr yn eu cyfarfodydd monitro chwarterol am unrhyw benderfyniadau eraill y maent wedi'i wneud neu yn debygol o'u gwneud yn y chwarter nesaf a fyddai'n flaenorol wedi'u cyfeirio at Lywodraeth Cymru.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Atodiad B**

## BWRDD GWELLA EFFEITHLONRWYDD LLYWODRAETH CYMRU

Cyflwynwyd y Bwrdd Gwella Effeithlonrwydd yn y lle cyntaf gan y Prif Weinidog presennol pan oedd yn ei swydd fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid. Mae'n cael ei gadeirio ar y cyd ar hyn o bryd rhyngof i a'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd. Pwrpas y Bwrdd yw goruchwylio cyfres o brosiectau â'r nod o wella effeithiolrwydd prosesau a gweithdrefnau, gan sicrhau mwy o gydymffurfiaeth â pholisi mewnol a lleihau'r baich gweinyddol ar swyddogion Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn ein galluogi i ryddhau adnoddau ar gyfer blaenoriaethau mwy dybryd.

Isod ceir crynodeb o'r cynnydd ar brosiectau presennol. Fodd bynnag, mae hon yn ffordd ailadroddus o wella'n ffordd o weithio, ac rwy'n llwyr ddisgwyl y byddwn yn gweld mwy o gyfleoedd i wella wrth i brosiectau presennol gael eu cwblhau.

### GWEINYDDU ARCHEBION PRYNU

Nod y gwaith hwn yw cyflwyno tîm unigol i drafod pob archeb brynu ar gyfer Llywodraeth Cymru. Wrth wneud hynny, byddwn yn medru sicrhau ein bod yn gweithredu'n gyson gan ddefnyddio arferion gorau, a fydd yn arwain at lai o gamgymeriadau a myw o gydymffurfio â pholisïau caffael a TAW. Bydd y dull gweithredu hwn hefyd yn lleihau nifer y defnyddwyr ac o ganlyniad costau trwyddedau, gan ryddhau staff uwch yn y busnes i ganolbwyntio ar feysydd eraill sy'n cael blaenoriaeth.

Hyd yma, rydym wedi profi'r dull gweithredu hwn o fewn y Grŵp Ysgrifenyddion Parhaol (PFG) a Swyddfa'r Prif Weinidog (OFM) ynghyd â nifer o feysydd o fewn ESNR; yr Amgylchedd, y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, Cynllunio, Swyddog Gwyddonol, Amaethyddiaeth, y Môr, Bwyd, Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes, Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth gan gynnwys CADW. Er i ni gytuno y byddai rhywfaint o adnodd yn cael ei drosglwyddo o ESNR i'r tîm canolog, nid oedd angen hyn gan fod y dull gweithredu mwy effeithlon wedi golygu bod staff presennol wedi medru amsugno'r gwaith ychwanegol. Ers i ni gychwyn trosglwyddo archebion prynu i un tîm unigol, mae Llywodraeth Cymru wedi medru gostwng nifer y defnyddwyr sydd angen mynediad at ein system brynu o 490 i 284.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Bydd camau nesaf y prosiect, a fydd yn cynnwys trosglwyddo'r gwaith ar archebion prynu o weddill ESNR, EPS a HSS yn cychwyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

## Y PANEL SICRWYDD GRANTIAU

Cyflwynwyd y Panel Sicrwydd Grantiau ym mis Medi 2018. Mae'r Panel yn darparu cyngor, her a sicrwydd i reolwyr grantiau cyn creu cynlluniau grant newydd. Caiff y Panel ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu, ac mae'n cynnwys swyddogion allweddol o'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau, Cymorth Gwladwriaethol, Gwasanaethau Cyfreithiol, Archwilio Mewnol, Gwrth-dwyll, Gwasanaethau Arbenigol ar Drethi, Swyddfa'r Cabinet a'r tîm polisi perthnasol. Gan ddibynnu ar natur y cynllun grant, efallai y bydd gofyn i swyddogion eraill fod yn bresennol. Mae'r panel yn cyfarfod yn fisol a hyd yma wedi adolygu 25 o gynlluniau newydd arfaethedig.

Mae'r Panel Sicrwydd Grantiau yn darparu cyfle unigryw i ni sicrhau bod y cynlluniau grant newydd i gyd yn gydnaws ag amcanion ehangach y llywodraeth ac yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau grantiau; er enghraifft ydy rheolwr y grant wedi ystyried yr amodau cymorth gwladwriaethol a GDPR priodol ac a yw'r telerau ac amodau yn seiliedig ar dempled llythyr dyfarnu gorfodol Llywodraeth Cymru. Mae'r Panel hefyd yn sicrhau bod rheolwyr grant yn derbyn amrywiaeth eang o gyngor, cymorth ac argymhellion gan wasanaethau arbenigol drwy fforwm unigol, a'u bod yn ymwybodol o wersi a ddysgwyd o gynlluniau eraill.

Adolygwyd cyflwyniad y Panel ym mis Ionawr 2019, ac fe gafwyd adborth cadarnhaol gan aelodau'r panel a rheolwyr grantiau.

## TÎM DIWYDRWYDD DYLADWY GRANTIAU

Mae diwydrwydd dyladwy priodol yn hanfodol wrth ystyried pa sefydliadau ddylai gael cyllid cyhoeddus. Cyflwynwyd y Tîm Diwydrwydd Dyladwy ym mis Chwefror 2019 fel rhan o'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau ehangach. Mae'r tîm yn darparu "gwiriad iechyd corfforaethol" i'r sefydliadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hariannu neu yn bwriadu eu hariannu, fel ffordd o wella cysondeb a chydymffurfiaeth, lleihau dyblygiad a darparu gwybodaeth fwy cynhwysfawr i reolwyr grantiau i'w helpu i wneud penderfyniadau. Mae'r tîm hefyd wedi medru datblygu newidiadau i systemau diwydrwydd dyladwy

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Llywodraeth Cymru er mwyn i ganlyniadau gwiriadau iechyd fod ar gael yn haws i swyddogion ledled Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn cynllun peilot cychwynnol ac ar sail adborth gan reolwyr grantiau, mae'r Tîm Diwydrwydd Dyladwy wedi gwella elfennau o'r cymorth sydd ar gael. Mae'r tîm bellach hefyd yn cynghori rheolwyr grantiau ar gamau lliniaru posib wedi'u teilwra i ganlyniad gwiriadau iechyd corfforaethol.

**MODEL GWEITHREDU TARGEDAU GRANTIAU**

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio gwella effeithlonrwydd, cysondeb a chydymffurfiaeth gyda pholisïau a gweithdrefnau gweinyddu grantiau. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy greu tîm unigol a fydd yn ymgymryd ag amrywiol weithgareddau gweinyddol ar ran rheolwyr grantiau, gan alluogi meysydd polisi i ryddhau adnoddau i flaenoriaethau eraill, mwy dybryd. Mae grantiau yn rhan sylweddol o waith Llywodraeth Cymru, felly bydd yn cael ei roi ar waith ar sail dreigl er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ac yn dysgu gwersi wrth fynd ymlaen. Mae gan y model gweithredu diwygiedig fwy o gapasiti i ryddhau adnoddau ledled y sefydliad nag unrhyw brosiect arall dan arweiniad y Bwrdd Effeithlonrwydd.

Byddai'r newidiadau arfaethedig hefyd yn fanteisiol i randdeiliaid gan y bydd yn rhoi sylw i bryderon a godwyd yn Arolwg Grantiau 2018, yn bennaf yr angen am ddull mwy cyson o ran y ffordd mae Llywodraeth Cymru yn rheoli ei phroses ymgeisio am grantiau, gan gynnwys rheoli swm yr wybodaeth yr ydym yn gofyn i sefydliadau ei darparu at ddibenion cyllid grant ar draws y busnes. Bydd y gwaith model gweithredu hefyd yn ceisio cyflwyno proses ymgeisio ar-lein ar gyfer grantiau wedi'u neilltuo.

**DIOGELU GWASANAETHAU CORFFORAETHOL LLYWODRAETH CYMRU AT Y DYFODOL**

Roedd yr Adolygiad o Wasanaethau Corfforaethol yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein gwasanaethau Adnoddau Dynol, Cyllid, Rheoli Cyfleusterau a Llywodraethu Corfforaethol. O ganlyniad i'r argymhellion a wnaed, penderfynodd Pwyllgor Gweithredol Llywodraeth Cymru fabwysiadu model cyflawni llawer mwy integredig wrth symud ymlaen. Mae'r dull gweithredu integredig hwn yn seiliedig ar ddatblygu fframwaith cryfach i dimau gydweithio drwy feddwl am ein gwasanaethau fel swyddogaeth sy'n canolbwyntio ar daith y cwsmer o'r dechrau i'r diwedd.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Gan ystyried y pwysau ar adnoddau yn sgil Brexit, penderfynwyd ei roi ar waith fesul cam, gan ddechrau gydag Adnoddau Dynol.

Ers mis Chwefror 2019 mae'r prosiect Adnoddau Dynol wedi:

- Ailddiffinio'r gwasanaeth Adnoddau Dynol ar gyfer y dyfodol i sicrhau ei fod yn ymatebol, yn gyson, yn canolbwyntio ar yr offer angenrheidiol i gyflawni mwy o hunan wasanaeth, a'i fod yn cael ei wneud yn dda iawn gyda mwy o bwyslais ar gynllunio'r gweithlu yn strategol ac ychwanegu gwerth.
- Cytuno ar greu gwasanaeth recriwtio canolog a fydd yn dwyn ynghyd yr holl gyngor ar recriwtio, ar draws pob math o recriwtio (mewnol, allanol, secondiad a benthyciadau) o fewn un tîm.
- Cryfhau'r ffordd o roi cyngor ar achosion drwy gyfuno adnoddau mewn un tîm unigol er mwyn cynnig mwy o gadernid i'r gwasanaeth, darpariaeth gwasanaethau cliriach a phwyntiau mynediad ar gyfer staff mewn gwahanol rannau o Lywodraeth Cymru. Bydd y gwasanaeth yn darparu ymyriadau mwy rhagweithiol yn seiliedig ar wybodaeth reoli ac yn unol ag anghenion busnes strategol.
- Darparu eglurder ar swyddogaethau a chyfrifoldebau i gael gwared ag achosion o ddyblygu, darparu mwy o eglurder o ran perchnogaeth a darparu cyfleoedd i safoni.

Bydd gwelliannau pellach yn cael eu cyflwyno yn ystod gweddill 2019/20.

**UNED CYRFF CYHOEDDUS**

Mae gan Lywodraeth Cymru 51 o gyrff hyd braich amrywiol, 15 ohonynt yn gwmnïau wedi'u perchnogi'n llwyr. Gyda'i gilydd, maent yn derbyn tua £1.4bn gan Lywodraeth Cymru. Mae o leiaf 82 o swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymwneud â noddi'r cyrff hyn, am gyfanswm cost o £3.5m. Mae hyn yn cynnwys 40 aelod staff sy'n gweinyddu gweithgareddau 16 o baneli apêl, tribiwnlysoedd a phwyllgorau allanol. Cychwynnwyd ar adolygiad Delivering Together o gyrff hyd braich mewn ymateb i bryderon y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r ffordd mae'n rheoli ei pherthynas gyda'r cyrff hyd braich, wedi i broblemau godi gyda Chwaraeon Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru; ac ar sail papur gan Swyddfa Archwilio Cymru am gyrff cyhoeddus.

Nododd yr adolygiad 37 o argymhellion dan 6 thema:

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

- Ffurf a Swyddogaeth Nawdd
- Cefnogi Arweinwyr Cyhoeddus
- Cefnogi Noddwyr
- Gwella'r Fframwaith Reoli
- Penodiadau Cyhoeddus
- Rheoli cyfathrebu dwy ffordd

Daeth yr adroddiad i'r casgliad hefyd, er nad oedd y trefniadau noddi wedi chwalu, eu bod yn rhy anghyson ar draws Llywodraeth Cymru (heb gydlyniant canolog) a'u bod yn canolbwyntio gormod ar batrwm rhiant-plentyn. Felly nodwyd cyfleoedd i gydlynu gweithgareddau ar lefel gorfforaethol y gellid eu gwneud unwaith ac yn dda, ac arweiniodd hynny at greu'r Uned Cyrff Cyhoeddus.

Yn ystod ei flwyddyn gyntaf, mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus wedi gweithredu nifer o argymhellion penodol a nodwyd yn yr adroddiad.

- Cael gwared â'r angen i rai categorïau o benderfyniadau gael eu cyfeirio at y noddwr.
- Paratoi cynllun peilot ar gyfer cylch gorchwyl Tymor Llywodraethu yn hytrach na chytundebau blynyddol.
- Darparu dull corfforaethol o edrych ar benodiadau cyhoeddus Gweinidogol wedi'u rheoleiddio. Cyflwyno newidiadau a/neu ddiwygiadau i ganllawiau cylch cyflog, trefniadau galw i mewn ar gyfer cylch cyflog a gosod cyfraddau taliadau cydnabyddiaeth a rhaglen i ddatblygu ffordd o sicrhau cydraddoldeb o ran taliadau. Mae pob un o'r newidiadau hynny yn helpu i gyflawni ymrwymiad y Prif Weinidog i ddatblygu ffordd o greu mwy o gydraddoldeb cyflog ar draws cyrff hyd braich.
- Cael gwared â'r angen i swyddogion Llywodraeth Cymru fod yn bresennol ym mhob cyfarfod bwrdd corff hyd braich.

Mae sefydlu'r Uned Cyrff Cyhoeddus wedi gwella llinellau cyfathrebu, gan roi adnodd canolog i Noddwyr a Chyrff a Noddir i rannu gwybodaeth mewn ffordd gyson, darparu cymorth i Noddwyr ar nifer o faterion gan gynnwys llywodraethiant, polisi, prosesau a llif gwaith a gwersi a ddysgwyd i gyflawni mewn ffordd fwy cydweithredol ac effeithiol.

Mae'r newidiadau a gyflwynwyd hyd yma wedi cael eu croesawu gan gyrff hyd braich a swyddogion Llywodraeth Cymru fel ei gilydd.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Gan edrych tua'r dyfodol, mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn gweithio gydag Academi Wales i ddarparu adnodd dysgu i Gyrff Cyhoeddus ac Arweinwyr Nawdd i rymuso Byrddau a Noddwyr i gyflawni mewn ffordd fwy effeithlon a rhoi mwy o sicrwydd bod trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd wedi'u deall. Mae hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Llyfrgell Genedlaethol Cymru er mwyn datblygu cynllun peilot ar gyfer adolygiadau unigol o gyrff hyd braich er mwyn profi eu diben, eu llywodraethiant a'u strwythurau i wneud penderfyniadau, eu heffeithlonrwydd, effeithiolrwydd, aeddfedrwydd digidol a pharodrwydd masnachol. Bydd pob corff yn cael adolygiad o fewn tymor y llywodraeth (gydag amseriad adolygiad pob corff yn seiliedig ar asesiad risg a gytunwyd gyda Chadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol y corff hyd braich) er mwyn galluogi Gweinidogion i wneud penderfyniad mewn perthynas â chyflawni'r rhaglen lywodraethu. Bydd yr adolygiad cyntaf yn cyrraedd y Bwrdd Gwella Effeithlonrwydd fis Rhagfyr 2019. Bydd y Bwrdd yn gweithredu fel panel herio. Bydd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol yn bresennol yng nghyfarfod y Bwrdd.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en